**COUNTY BOROUGH OF BLAENAU GWENT**

| | |
|---|---|
| **REPORT TO:** | **THE CHAIR AND MEMBERS OF THE CYFARFOD CYFFREDINOL Y CYNGOR** |
| **SUBJECT:** | **CYFARFOD CYFFREDINOL Y CYNGOR - DYDD IAU, 29 GORFFENNAF 2021 DYDD IAU, 29 GORFFENNAF 2021** |
| **REPORT OF:** | |

---

PRESENT: J. HOLT (CADEIRYDD)

Councillors
M. Day (Dirprwy Gadeirydd)
P. Baldwin
D. Bevan
J. Collins
M. Cook
M. Cross
N. Daniels
D. Davies
G. A. Davies
G. L. Davies
P. Edwards
L. Elias
D. Hancock
K. Hayden
S. Healy
J. Hill
M. Holland
J. Mason
H. McCarthy
C. Meredith
J. Millard
M. Moore
J. P. Morgan
L. Parsons
G. Paulsen
K. Pritchard
K. Rowson
T. Sharrem
T. Smith

B. Summers
G. Thomas
S. Thomas
H. Trollope
J. Wilkins
D. Wilkshire
B. Willis
L. Winnett

WITH:

Rheolwr Gyfarwyddwr
Cyfarwyddwr Corfforaethol Gwasanaethau Cymdeithasol
Cyfarwyddwr Corfforaethol Addysg
Prif Swyddog Masnachol a Chwsmeriaid
Pennaeth Cydymffurfiaeth Cyfreithiol a Chorfforaethol
Pennaeth Gwasanaethau Cymunedol
Pennaeth Adfywio
Pennaeth Datblygu Sefydliadol
Rheolwr Gwasanaeth - Cyfrifeg
Rheolwr Cyfathrebu, Marchnata a Mynediad Cwsmeriaid
Rheolwr Tîm – Safonau Masnach

| ITEM | SUBJECT | ACTION |
|---|---|---|
| **No. 1** | **<u>CYFIEITHU AR Y PRYD</u>**<br><br>Nodwyd na dderbyniwyd unrhyw geisiadau ar gyfer y gwasanaeth cyfieithu ar y pryd. | |
| **No. 2** | **<u>YMDDIHEURIADAU</u>**<br><br>Derbyniwyd ymddiheuriadau gan y Cynghorwyr G. Collier, W. Hodgins, J. C. Morgan, B. Thomas, Cyfarwyddwr Corfforaethol Adfywio a Gwasanaethau Cymunedol a'r Prif Swyddog Adnoddau. | |
| **No. 3** | **<u>DATGANIADAU BUDDIANT A GODDEFEBAU</u>**<br><br>Adroddwyd y datganiadau buddiant dilynol::<br><br>*Eitemau Rhif 59-61 – Llunio Rhestr Hir Swyddogion JNC, Llunio Rhestr Fer Swyddogion JNC, Pwyllgor Apwyntiadau Swyddogion JNC.* | |

| | | |
|---|---|---|
| | Bernadette Elias – Prif Swyddog Masnachol a Chwsmeriaid | |
| **No. 4** | **CYHOEDDIADAU'R CADEIRYDD**<br><br>**Cydymdeimlad**<br><br>Mynegwyd cydymdeimlad gyda:<br><br>- Y Cynghorydd Bernard Willis a'i deulu ar farwolaeth drist ei ferch Kym Lewis. Bu Kim yn gymar Bernard yn ystod ei flwyddyn fel Maer.<br><br>- Teulu'r cyn Gynghorydd Bwrdeistrefol a Maer Gareth Morgan MBE ar ei farwolaeth drist.<br><br>- Teulu'r cyn Gynghorydd Bwrdeistref Sirol a Chynghorydd Tref Bob Pagett ar ei farwolaeth drist.<br><br>Dangosodd aelodau a swyddogion eu cydymdeimlad gyda munud o dawelwch.<br><br>Talwyd teyrngedau i'r Cynghorydd Bob Pagett, cyn Gynghorydd Bwrdeistref Sirol a Chynghorydd Tref. Dywedwyd bod Bob wedi gwasanaethu fel Cynghorydd Tref ar gyfer Nantyglo a Blaenau ers diwedd y 1970au hyd at y diwrnod presennol ac yn ystod y cyfnod hwnnw roedd wedi gwasanaethu fel Maer ar sawl achlysur. Roedd y gymuned yn bwysig iawn i Bob a byddir yn gweld ei golli'n fawr.<br><br>Adleisiodd Arweinydd y Grŵp Llafur y sylwadau a wnaed a dywedodd y bu Bob yn was ffyddlon iawn i'r Fwrdeistref Sirol. Talodd deyrnged hefyd i Kym Lewis. Roedd Kym wedi gwasanaethu fel Cymar y Maer pan benodwyd ei thad, y Cynghorydd Bernard Willis, yn Faer. Bu Kym yn llysgennad gwych i Flaenau Gwent yn y swydd hon a byddid yn gweld ei cholli'n fawr.<br><br>PENDERFYNWYD anfon llythyrau addas.<br><br>**Llongyfarchiadau**<br><br>Estynnwyd llongyfarchiadau i:<br><br>- Tîm Lefel 'A; Hafan Dysgu Blaenau Gwent, Coleg Gwent. Roedd y tîm wedi ennill gwobr efydd bwysig yn Nhîm Addysg Bellach y Flwyddyn 2021 Gwobrau Addysgu Pearson am | |

| | | |
|---|---|---|
| | gyfraniad gwerthfawr y staff addysgu a'r gwahaniaeth a wnaeth hynny i bobl ifanc yn yr ardal.<br><br>Anfonwyd llythyr addas at Goleg Gwent.<br><br>- Cynllun Cydnabyddiaeth Cyflogwyr Amddiffyn – Gwobr Aur: Derbyniwyd hysbysiad gan y Weinyddiaeth Amddiffyn fod Blaenau Gwent wedi ennill statws Aur dan Gynllun Cydnabyddiaeth Cyflogwyr Amddiffyn. Roedd hon yn wobr bwysig ac roedd Blaenau Gwent ymhlith dim ond 127 sefydliad y barnwyd iddynt gyrraedd y safon gofynnol.<br><br>**Apêl y Cadeirydd 2021/2022**<br><br>Cyhoeddodd y Cadeirydd mai'r Apêl a ddewisodd ar gyfer 2021/22 fyddai Banc Bwyd Blaenau Gwent. Bu gan y sefydliad rôl hollbwysig ar draws y fwrdeistref yn cefnogi pobl fregus drwy gydol y pandemig. | |
| **No. 5** | **LLYFR COFNODION – MAWRTH-MEHEFIN 2021**<br><br>Cyflwynwyd y Llyfr Cofnodion ar gyfer y cyfnod Mawrth – Mehefin 2021 i gael ei ystyried.<br><br>PENDERFYNWYD yn unfrydol i gadarnhau'r cofnodion. | |
| **No. 6** | **CYFARFOD BLYNYDDOL Y CYNGOR**<br><br>Cytunwyd. | |
| **No. 7** | **CYFARFOD CYFFREDINOL Y CYNGOR**<br><br>Cytunwyd. | |
| **No. 8** | **CYFARFOD ARBENNIG O'R CYNGOR**<br><br>Cytunwyd. | |
| **No. 9** | **PWYLLGOR CYNLLUNIO, RHEOLEIDDIO A THRWYDDEDU CYFFREDINOL (MATERION CYNLLUNIO)**<br><br>Cytunwyd. | |

| | | |
|---|---|---|
| **No. 10** | **PWYLLGOR CYNLLUNIO, RHEOLEIDDIO A THRWYDDEDU CYFFREDINOL (MATERION CYNLLUNIO)**<br><br>Cytunwyd. | |
| **No. 11** | **PWYLLGOR CYNLLUNIO, RHEOLEIDDIO A THRWYDDEDU CYFFREDINOL (MATERION TRWYDDEDU CYFFREDINOL)**<br><br>Cytunwyd. | |
| **No. 12** | **PWYLLGOR TRWYDDEDU STATUDOL**<br><br>Cytunwyd. | |
| **No. 13** | **CYFARFOD ARBENNIG O'R PWYLLGOR GWEITHREDOL**<br><br>Cytunwyd. | |
| **No. 14** | **PWYLLGOR GWEITHREDOL**<br><br>Cytunwyd. | |
| **No. 15** | **CYFARFOD ARBENNIG O'R PWYLLGOR GWEITHREDOL**<br><br>Cytunwyd. | |
| **No. 16** | **CYFARFOD ARBENNIG O'R PWYLLGOR GWEITHREDOL**<br><br>Cytunwyd. | |
| **No. 17** | **CYFARFOD PWYLLGOR GWEITHREDOL**<br><br>Cytunwyd. | |
| **No. 18** | **CYFARFOD ARBENNIG O'R PWYLLGOR GWEITHREDOL**<br><br>Cytunwyd. | |
| **No. 19** | **PWYLLGOR CRAFFU GWASANAETHAU CYMUNEDOL**<br><br>Cytunwyd. | |
| **No. 20** | **PWYLLGOR ARCHWILIO** | |

| | | |
|---|---|---|
| | Cytunwyd. | |
| **No. 21** | **<u>PWYLLGOR CRAFFU TROSOLWG CORFFORAETHOL</u>**<br><br>Cytunwyd. | |
| **No. 22** | **<u>PWYLLGOR CRAFFU ADDYSG A DYSGU</u>**<br><br>Cytunwyd. | |
| **No. 23** | **<u>CYD-BWYLLGOR CRAFFU (MONITRO CYLLIDEB)</u>**<br><br>Cytunwyd. | |
| **No. 24** | **<u>PWYLLGOR CRAFFU GWASANAETHAU CYMDEITHASOL</u>**<br><br>Cytunwyd. | |
| **No. 25** | **<u>PWYLLGOR GWASANAETHAU DEMOCRATAIDD</u>**<br><br>Cytunwyd. | |
| **No. 26** | **<u>PWYLLGOR CRAFFU ADFYWIO</u>**<br><br>Cytunwyd. | |
| **No. 27** | **<u>PWYLLGOR CRAFFU ARBENNIG ADDYSG A DYSGU</u>**<br><br>Cytunwyd. | |
| **No. 28** | **<u>PWYLLGOR CRAFFU GWASANAETHAU CYMUNEDOL</u>**<br><br>Cytunwyd. | |
| **No. 29** | **<u>PWYLLGOR CRAFFU Y BWRDD GWASANAETHAU CYHOEDDUS</u>**<br><br>Cytunwyd. | |
| **No. 30** | **<u>PWYLLGOR CRAFFU TROSOLWG CORFFORAETHOL</u>**<br><br>Cytunwyd. | |

| | | |
|---|---|---|
| | | |
| No. 31 | **PWYLLGOR CRAFFU ADDYSG A DYSGU**<br><br>Cytunwyd. | |
| No. 32 | **PWYLLGOR CRAFFU GWASANAETHAU CYMDEITHASOL**<br><br>Cytunwyd. | |
| No. 33 | **CYD-BWYLLGOR CRAFFU ADDYSG A DYSGU A GWASANAETHAU CYMDEITHASOL (DIOGELU)**<br><br>Cytunwyd. | |
| No. 34 | **PWYLLGOR ARCHWILIO**<br><br>Cytunwyd. | |
| No. 35 | **PWYLLGOR CRAFFU ADFYWIO**<br><br>Cytunwyd. | |
| No. 36 | **PWYLLGOR CRAFFU GWASANAETHAU CYMUNEDOL**<br><br>Cytunwyd. | |
| No. 37 | **PWYLLGOR LLYWODRAETHIANT AC ARCHWILIO**<br><br>Cytunwyd. | |
| No. 38 | **CWESTIYNAU AELODAU**<br><br>**Cwestiwn 1**<br><br>Derbyniwyd y cwestiwn dilynol gan y Cynghorydd Hedley McCarthy a chafodd ei ateb gan y Cynghorydd Joanne Wilkins, Aelod Gweithredol dros yr Amgylchedd:<br><br>**Cwestiwn:**<br><br>"A all yr Aelod Gweithredol esbonio i'r Cyngor pa gamau brys a gymerir i liniaru'r niwsans sŵn annerbyniol o Blackwood Engineering yn Stad Ddiwydiannol Glandwr?" | |

| | | |
|---|---|---|
| | **Ymateb:**<br><br>Roedd Tîm Iechyd yr Amgylchedd wedi cadarnhau derbyn un gŵyn am sŵn gan breswylydd lleol yng nghyswllt y mater hwn. Mae Tîm Rheoli y cwmni yn cydweithredu gyda'r Cyngor i fynd i'r afael â rhai o'r materion penodol a godwyd yn gysylltiedig â sŵn ac wedi cynnig cyfres o gamau gweithredu i ddelio gyda'r materion hyn a gobeithid y byddai hynny'n datrys y problemau cyfredol oedd heb eu datrys ynglŷn â sŵn. Fodd bynnag, gan fod yr ymchwiliad yma'n parhau nid oedd yn addas rhoi sylwadau pellach ar hyn o bryd.<br><br>**Cwestiwn Atodol:**<br><br>Ni chyflwynwyd cwestiwn atodol.<br><br>**<u>Cwestiwn Rhif 2</u>**<br><br>Derbyniwyd y cwestiwn dilynol gan y Cynghorydd Phillip Edwards a chafodd ei ateb gan y Cynghorydd Nigel Daniels, Arweinydd y Cyngor.<br><br>**Cwestiwn:**<br><br>"Pryd fydd dirprwyo pwerau yn ystod y pandemig, yn cynnwys y Grŵp Aur, yn dod i ben?"<br><br>**Ymateb:**<br><br>Roedd y dirprwyo ychwanegol i swyddogion wedi dod i ben ar 24 Mehefin 2020 pan godwyd gohirio Pwyllgorau'r Cyngor. Fodd bynnag, roedd y Grŵp Aur wedi parhau i weithredu fel rhan o'r ymateb cenedlaethol a rhanbarthol i'r pandemig ond ers 24 Mehefin mae wedi gweithredu yn gyfochrog â'r trefniadau democrataidd arferol. Daeth y Grŵp Aur i ben ym mis Mai 2021, ar ôl i Grŵp Cydlynu Strategol Gwent ddod i ben.<br><br>**Cwestiwn Atodol:**<br><br>Ni chyflwynwyd cwestiwn atodol. | |
| **No. 39** | **<u>CWESTIYNAU GAN Y CYHOEDD</u>** | |

| | | |
|---|---|---|
| | Ni chyflwynwyd unrhyw gwestiynau gan aelodau o’r cyhoedd. | |
| **No. 40** | **<u>BLAENRAGLEN GWAITH 2021-2022 ARFAETHEDIG Y CYNGOR</u>**<br><br>Rhoddwyd ystyriaeth i Flaenraglen Gwaith arfaethedig y Cyngor ar gyfer 2021-222.<br><br>PENDERFYNWYD yn unfrydol i dderbyn yr adroddiad a chymeradwyo Opsiwn 1, sef cymeradwyo Blaenraglen Gwaith y Cyngor ar gyfer 2021-2022. | |
| **No. 41** | **<u>ADRODDIAD CRAFFU BLYNYDDOL 2020/2021</u>**<br><br>Rhoddwyd ystyriaeth i adroddiad y Rheolwr Gwasanaeth Perfformiad a Democrataidd.<br><br>PENDERFYNWYD yn unfrydol i dderbyn yr adroddiad a chymeradwyo Opsiwn 1, sef cymeradwyo’r ‘gweithgaredd craffu’ a gynhaliwyd gan bob Pwyllgor Craffu yn ystod 2020/21 ac y dylid cyhoeddi’r adroddiad ar wefan Blaenau Gwent. | |
| **No. 42** | **<u>RHESTR CYDNABYDDIAETH ARIANNOL AELODAU 2021-2022</u>**<br><br>Cyflwynwyd adroddiad y Pennaeth Datblygu Sefydliadol i gael ei ystyried.<br><br>Yn absenoldeb Cadeirydd y Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd, dywedodd yr Is-gadeirydd fod y Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd wedi ystyried a chytuno ar y ddau adroddiad a chynigiodd y dylai Eitemau Rhif 41 a 42 gael eu cymeradwyo ar yr un pryd.<br><br>Cyfeiriodd Aelod at gyfarfod blaenorol o’r Cyngor a gynhaliwyd ym mis Mai pan ofynnodd i’r Arweinydd am yr achos lle penodwyd Aelod i ddwy swydd oedd yn derbyn tâl a dywedodd bod yr Arweinydd wedi gwadu ar y pryd y gwyddai am yr achos. Daeth yr Aelod i ben drwy ofyn os cafodd yr arian hwn yn awr ei ad-dalu i’r Cyngor gan fod paragraffau 2.3 a 2.6 y Rhestr Cydnabyddiaeth Ariannol i Aelodau yn dweud mai dim ond un uwch gyflog oedd yn daladwy i Aelod o’r awdurdod. | |

Ar bwynt o gywiriad, dywedodd Arweinydd y Cyngor fod yr Aelod wedi camddehongli ei sylwadau ac eglurodd nad oedd wedi gwadu y gwyddai am yr achos ond roedd wedi dweud bryd hynny nad oedd yn wirioneddol ddim yn gwybod amdano. Fodd bynnag, cafodd ei hysbysu'n ddilynol am y maes y cyfeiriwyd eto a chadarnhaodd bod y rheoliadau yn caniatau'r lwfans ychwanegol sy'n cael ei dalu i Gadeirydd sy'n derbyn lwfans cyfrifoldeb arbennig.

Dywedodd yr Aelod fod hyn yn ddryslyd ac yn gwrthddweud yr wybodaeth a roddir yn y Rhestr o Gydnabyddiaeth Ariannol i Aelodau, yn benodol baragraffau 2.3 a 2.6. h.y. mai dim ond un cyflog uwch sy'n daladwy i aelod o'r awdurdod a daeth i ben drwy ddweud, er fod yr Arweinydd wedi dweud na wyddai am yr achos, y gellid dehongli hyn i olygu ei fod yn gwadu gwybodaeth amdano.

Cododd Arweinydd y Cyngor bwynt o drefn a dywedodd fod 'peidio gwybod am' a 'gwadu' yn ddau beth gwahanol ac y gellid eu dehongli'n wahanol. Cadarnhaodd na wyddai am yr achos a bod hynny yn sylw diffuant a wnaed ar y pryd. Fodd bynnag, cafodd ei sicrhau wedyn gan y Swyddog Monitro a hefyd y Prif Swyddog Aelodau y gallai Aelod sy'n derbyn Band 3 Cadeiryddion Pwyllgorau (lefel tâl Cadeiryddion Pwyllgorau Craffu) dderbyn cyflog gan gorff arall.

Dywedodd Arweinydd y Grŵp Llafur ei fod wedi tybio mai Arweinydd oedd yn penodi i'r swyddi allanol hyn a'i bod yn bwysig cael tryloywder, yn neilltuol ar gyfer y cyhoedd yng nghyswllt lwfansau cyfrifoldeb uwch.

Dywedodd Arweinydd y Cyngor ei fod yn fodlon mynd ar gofnod ei fod wedi argymell bod yr unigolyn dan sylw yn cael ei benodi i'r corff neilltuol hwnnw oherwydd ei brofiad a'i wybodaeth. Mae'r sefydliad dan sylw yn bartner hollbwysig a chredai mai'r Aelod oedd yr unigolyn gorau i wneud y swydd. Dywedwyd y cafodd y penodiad ei gymeradwyo'n llwyr gan ei gydweithwyr a'i gymeradwyo pan gafodd strwythur Pwyllgorau a chyrff allanol ei gymeradwyo gan y Cyngor Llawn.

Dywedodd Arweinydd y Grŵp Llafur nad p'un ai'r unigolyn yw'r person gorau ar gyfer y swydd oedd dan sylw, ond fod yr unigolyn yn derbyn dau gyflog ac os oedd yr Arweinydd wedi argymell bod yr unigolyn yn cael ei benodi i'r swydd, yna ei fod wedi gwybod am y sefyllfa a dywedodd y dylai ymddiheuro i'w gydweithwyr am

| | | |
|---|---|---|
| | ddweud nad oedd yn gwybod am y sefyllfa. Daeth i ben drwy ddweud fod gan y cyhoedd hawl ac yn haeddu gwybod beth sy'n digwydd yn y Cyngor.<br><br>Dywedodd Arweinydd y Cyngor yn yr achos hwn na theimlai fod angen iddo ymddiheuro oherwydd pan wnaeth y sylwadau ar y pryd ni fedrai'n wirioneddol gofio am yr achos a roedd yn rhaid i swyddogion ei atgoffa. Dywedodd fod ei sylwadau pan y'u gwnaed yn onest a geirwir ac nad oedd yn ymddiheuro am yr onestrwydd a geirwirdeb hwnnw a dywedodd hefyd nad oedd yn ymddiheuro am y penderfyniad a wnaed i benodi'r unigolyn i'r swydd neilltuol honno.<br><br>PENDERFYNWYD yn unfrydol i dderbyn yr adroddiad a chymeradwyo Opsiwn 1, sef cytuno a chyhoeddi'r Rhestr Cydnabyddiaeth Ariannol Aelodau ar gyfer 2021/22. | |
| **No. 43** | **<u>DATGANIAD TALIADAU A WNAED I AELODAU YN 2020/21</u>**<br><br>Cyflwynwyd adroddiad y Pennaeth Datblygu Sefydliadol i gael ei ystyried.<br><br>PENDERFYNWYD yn unfrydol i dderbyn yr adroddiad a chymeradwyo Opsiwn 1, sef cyhoeddi'r Datganiad Taliadau a Wnaed i Aelodau yn ystod 2020/21 er mwyn cydymffurfio gyda'r ddeddfwriaeth berthnasol. | |
| **No. 44** | **<u>STRATEGAETH GWEITHLU 2021 -2026</u>**<br><br>Rhoddwyd ystyriaeth i adroddiad y Pennaeth Datblygu Sefydliadol.<br><br>Ar wahoddiad y Cadeirydd, esboniodd y Pennaeth Datblygu Sefydliadol mai diben yr adroddiad yw ceisio cymeradwyaeth i Strategaeth Gweithlu 2021-2026. Nodwyd fod Strategaeth Datblygu Sefydliadol 2015-2020 y Cyngor wedi canolbwyntio'n strategol ar baratoi'r Cyngor a'i weithlu ar gyfer trawsnewid a newid, ac wedi hyrwyddo'n llwyddiannus y dull gweithredu 'un Cyngor', ac wedi cefnogi trawsnewid y sefydliad mewn ymateb i effeithiolrwydd ariannol sy'n cynnwys adolygiad o'r gwasanaethau a chyflwyno dulliau newydd ac amgen o ddarparu gwasanaethau.<br><br>Mae'r strategaeth 5-mlynedd yma'n canolbwyntio ar y dyfodol, gan integreiddio gweledigaeth, amcanion a threfniadau cynllunio ariannol y Cyngor. Byddai'n cysylltu deilliannau gwasanaethau | |

gyda'r gweithlu sydd eu hangen i'w cyflawni a byddai ganddo ddealltwriaeth barhaus o sut y dylai'r gweithlu edrych yn y dyfodol drwy adolygu parhaus, ail-alinio a mesur sut y cyflawnir deilliannau. Byddai hefyd yn cefnogi'r gweithlu i bontio o ymateb i'r sefyllfa argyfwng yng nghyswllt pandemig Covid-19 a gweithredu fel ysgogydd allweddol i hwyluso newid diwylliannol.

Datblygwyd y strategaeth o wybodaeth gweithlu, arolygon staff ac ymgysylltu ac ymgynghori gyda rhanddeiliaid ac undebau llafur allweddol ac mae'r awgrymiadau a wnaed wedi dylanwadu ar ddatblygiad y strategaeth. Daeth y Pennaeth Datblygu Sefydliadol i ben drwy ddweud y byddai gan y strategaeth gynllun gweithredu blynyddol a fyddai'n cael ei fonitro drwy'r Tîm Arweinyddiaeth Gorfforaethol a'r Pwyllgor Craffu Trosolwg Corfforaethol.

Cyfeiriodd Arweinydd y Grŵp Llafur at baragraff 2.2. yr adroddiad sy'n dweud y byddai'r "model gweithredu newydd yn cyflwyno arferion gweithio modern, yn anelu i wella profiad gwaith gweithwyr cyflogedig, cynyddu perfformiad a chynhyrchiant a sicrhau'r gwerth mwyaf i'r sefydliad ..." a gofynnodd os oedd y datganiad hwn yn ddibynadwy.

Aeth ymlaen drwy esbonio fod y sefyllfa bresennol yn yr Adrannau Cynllunio a Rheoli Adeiladau yn gywilyddus. Dywedir wrth y cyhoedd y byddai'r Cyngor yn dod yn awdurdod modern lleol, gydag uchelgais i greu tai newydd a dod yn awdurdod carbon isel. Fodd bynnag, roedd pobl yn y Fwrdeistref Sirol yn fawr iawn eu cwyn am y swm hurt o amser y mae'n ei gymryd i geisiadau gael eu hystyried. Gofynnodd am i'r Tîm Arweinyddiaeth Gorfforaethol a'r arweinyddiaeth wleidyddol weithredu mesurau i fynd i'r afael â'r sefyllfa hon.

Daeth Arweinydd y Grŵp Llafur i ben drwy ddweud, yng nghyswllt yr adroddiad, ei fod wedi gwneud ei sylwadau'n flaenorol yn y Pwyllgor Craffu ac yn cefnogi cymeradwyo'r argymhelliad.

Dechreuodd Arweinydd y Cyngor drwy ddweud ei fod yn gwybod am y sefyllfa bresennol o fewn y gwasanaeth ond dywedodd ei fod yn credu mai hon oedd y strategaeth gywir ar gyfer y Cyngor. Roedd yr Undebau Llafur wedi cefnogi'r strategaeth ac nid oedd wedi codi unrhyw amheuon am y strategaeth neu unrhyw feysydd eraill o'r awdurdod. Gwyddai fod gwaith yn mynd rhagddo i wella'r gwasanaeth digidol yng nghyswllt yr Adran Cynllunio ac y byddai hynny'n helpu i gefnogi gweithio o bell a gweithio ystwyth, fodd

| | | |
|---|---|---|
| | bynnag caiff hyn ei wneud ar lefel weithredol ar hyn o bryd.<br><br>Dywedodd y Rheolwr Gyfarwyddwr fod Arweinydd y Grŵp Llafur wedi codi rhai pwyntiau pwysig. Roedd gwaith yn mynd rhagddo gyda'r gwasanaeth neilltuol hwn i roi cefnogaeth i'w roi mewn safle cryfach. Fodd bynnag, roedd amgylchiadau penodol iawn yn y gwasanaeth hwn sydd wedi achosi'r problemau sy'n cael eu profi a bod angen eu trin a gwella'r sefyllfa. Mae'r datrysiad digidol yn rhan o'r mesur hwn ynghyd â'r ddarpariaeth i gefnogi staff i ddychwelyd i'r gwaith.<br><br>Sicrhaodd y Rheolwr Gyfarwyddwr yr Aelodau fod gwaith yn mynd rhagddo ar lefel weithredol i wella'r sefyllfa hon ond ei bod yn bwysig cydnabod mai un maes gwasanaeth yw hwn ac nad oedd hyn, o'r herwydd, yn arwydd fod hwn yn fodel darpariaeth gwasanaeth anghywir ar gyfer y Cyngor ond yn golygu y byddai angen cymorth ychwanegol ar gyfer y gwasanaeth hwnnw yn ystod y cyfnod pontio.<br><br>Diolchodd Arweinydd y Grŵp Llafur i'r Rheolwr Gyfarwyddwr am ei hymateb ond dywedodd fod y sefyllfa bresennol yn yr adran yn gwrthddweud yr adroddiad. Anogodd fod trefniadau staffio dros dro yn cael eu rhoi ar waith i lacio'r sefyllfa a mynd i'r afael â hi fel mater o frys.<br><br>Dywedodd y Rheolwr Gyfarwyddwr fod y gwasanaeth wedi cyflogi staff asiantaeth ychwanegol ond bod heriau go iawn wrth sicrhau staff gyda'r setiau sgiliau gofynnol. Fodd bynnag mae'r Rheolwr Gwasanaeth ac uwch swyddogion yn gwneud popeth a allant i fynd i'r afael â'r sefyllfa bresennol.<br><br>PENDERFYNWYD yn unfrydol, yn amodol ar yr uchod, i dderbyn yr adroddiad a chymeradwyo Opsiwn 1 sef cefnogi a chymeradwyo drafft arfaethedig y Strategaeth Gweithlu 2021-2026. | |
| **No. 45** | **<u>DATGANIAD CYNGOR AMRYWIOL</u>**<br><br>Rhoddwyd ystyriaeth i adroddiad y Rheolwr Gwasanaeth Perfformiad a Democrataidd.<br><br>Siaradodd y Prif Swyddog Masnachol a Chwsmeriaid yn fyr am yr adroddiad sy'n cyflwyno'r Datganiad Cyngor Amrywiol i gael ei gymeradwyo. Dywedodd Aelodau fod Llywodraeth Cymru yn | |

ymroddedig i gynyddu amrywiaeth ym mhob agwedd o fywyd cyhoeddus a bod hyn yn cynnwys mynd i'r afael â'r rhwystrau sy'n atal cyfranogiad gweithredol unigolion mewn democratiaeth leol.

Mae paragraff 2.4 yr adroddiad yn nodi nifer y disgwyliadau ar y Cyngor i gefnogi amrywiaeth o fewn y broses ddemocrataidd a hefyd gyda phleidiau gwleidyddol i gefnogi'r broses o ddod yn gynghorydd a rhoi cefnogaeth i gynghorwyr unwaith y cânt eu hethol. Mae paragraff 2.5 yn amlinellu'r disgwyliadau ychwanegol fel rhan o Ddeddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau.

Aeth y Prif Swyddog ymlaen drwy ddweud y byddir yn datblygu cynllun gweithredu fyddai'n cwmpasu'r cyfnod hyd at a thu hwnt i etholiadau lleol 2022 ac y cyflwynir hyn i'r Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd ei ystyried cyn ei gymeradwyo yn y Cyngor ar 30 Medi. Nodwyd fod y Cyngor eisoes yn gwneud cynnydd mewn rhai o'r meysydd, er enghraifft hyblygrwydd busnes drwy fynychu cyfarfodydd o bell.

Croesawodd Aelod yr adroddiad a gofynnodd pwy fyddai'n datblygu'r cynllun gweithredu ac os yr ymgynghorir â'r cyhoedd ar y cynllun cyn iddo gael ei gyflwyno i'r Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd. Dywedodd fod angen i'r Cyngor ymgysylltu gyda phobl i ganfod beth y credent oedd y rhwystrau i ddod yn gynghorydd.

Dywedodd y Prif Swyddog Masnachol a Chwsmeriaid y cynhaliwyd trafodaethau dechreuol gyda'r Swyddogion Cydraddoldeb i wneud y cysylltiadau hynny gyda rhai grwpiau sy'n cael eu tangynrychioli i ganfod eu barn. Yn ychwanegol, mae'r Cynnig Democratiaeth Digidol presennol yn cynnwys gwaith gyda phobl ifanc 16-25 oed i ddeall eu profiadau a'r rhwystrau sy'n eu hwynebu wrth gysylltu gyda'r trefniadau democrataidd ac y byddai peth o'r dysgu hwn yn helpu i gefnogi datblygu'r cynllun. Mae'r Panel Dinasyddion yn gyfle pellach i ymgysylltu a byddai hynny'n digwydd drwy rwydweithiau eraill a ddynodwyd gan fod gwahanol agweddau o'r datganiad y gallai gwahanol grwpiau fynd â nhw ymlaen. Nodwyd y cafodd peth ymchwil dechreuol ei gasglu gydag unigolion yn y Fwrdeistref Sirol ac y byddai'r holl wybodaeth hon yn cael ei chasglu a'i hystyried. Ychwanegodd y Prif Swyddog y caiff barn Aelodau ei hystyried drwy'r broses ddemocrataidd.

Croesawodd Aelod y datganiad a gofynnodd am sicrwydd gan yr Arweinydd, er mwyn dangos ymrwymiad y Cyngor y byddai

| | | |
|---|---|---|
| | aelodau'n cael cyfle i drafod Archwiliad Coffau Cymru a gymeradwyodd Llywodraeth Cymru ym mis Tachwedd 2020.<br><br>Cadarnhaodd yr Arweinydd ei fod yn fodlon i'r ddogfen gael ei thrafod.<br><br>Mynegodd Aelod arall ei bryder am ddemocratiaeth ddigidol a'i brofiad o gyfarfodydd rhithiol gan y teimlai nad oeddent yn ddefnyddiol nac ymarferol a dywedodd y dylid bod wedi cynnal trafodaeth drwyadl gydag aelodau'r cyhoedd a Chynghorwyr.<br><br>Dywedodd Aelod arall ei bod yn cytuno gyda'r adroddiad ond yr hoffai ryw fath o gydnabyddiaeth o fewn y cynllun gweithredu y cynhelir cyfarfodydd tu allan i'r diwrnod gwaith, yn arbennig bwyllgorau craffu, gan y teimlai y byddai hyn yn denu elfen llawer iau o'r gymuned yn arbennig famau ifanc sy'n gweithio i wneud cais i ddod yn gynghorydd.<br><br>Wrth gynnig cymeradwyo Opsiwn 1, dywedodd Arweinydd y Cyngor bod adran 'disgwyliadau' yr adroddiad yn sôn am adolygu a newid amserau cyfarfodydd ac y byddai hyn yn ffurfio rhan o'r cynllun gweithredu a gaiff ei ystyried.<br><br>PENDERFYNWYD, yn unfrydol, yn amodol ar yr uchod i dderbyn yr adroddiad a chymeradwyo Opsiwn, sef bod y Cyngor yn:<br><br>• Llofnodi Datganiad Cyngor Amrywiol a nodir yn Atodiad 1.<br>• Cytuno datblygu cynllun gweithredu i fynd i'r afael â meysydd gofynnol bod yn Gyngor amrywiol.<br>• Cyflwyno'r cynllun gweithredu i'r Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd i'w ystyried a'i gytuno cyn cael ei gymeradwyo gan y Cyngor ar 30 Medi 2021. | |
| **No. 46** | **<u>SYMUD TUAG AT FWRDD GWASANAETHAU CYHOEDDUS RHANBARTHOL GWENT</u>**<br><br>Rhoddwyd ystyriaeth i adroddiad y Rheolwr Gyfarwyddwr.<br><br>Siaradodd y Rheolwr Gyfarwyddwr yn fanwl am yr adroddiad sy'n ceisio cymeradwyaeth i Flaenau Gwent ymuno â chynghorau eraill a phartneriaid statudol eraill yng Ngwent i ffurfio Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Rhanbarthol. Mae'r adroddiad hefyd yn rhoi diweddariad ar y cynnydd a wnaed yng nghyswllt asesiad llesiant a chynllun llesiant rhanbarthol, ffurfio'r pwyllgor craffu | |

| | | |
|---|---|---|
| | rhanbarthol a datblygu partneriaeth cyflawni lleol ym Mlaenau Gwent i sicrhau fod blaenoriaethau lleol yn parhau i fod yn ffocws yn y Fwrdeistref Sirol.<br><br>Mae ffocws Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 ar wella llesiant cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol a diwylliannol Cymru. Mae'r Ddeddf yn nodi dyletswydd llesiant ar y cyd ar gyrff cyhoeddus penodol i weithredu ar y cyd drwy Fyrddau Gwasanaethau Cyhoeddus i wella llesiant economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol eu hardaloedd drwy gyfrannu at gyflawni'r nodau llesiant.<br><br>Mae strwythur y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus presennol a gynhwysir o fewn Atodiad 1 yr adroddiad yn nodi fod 5 Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus yng Ngwent ar hyn o bryd yn canoli ar 5 ardal awdurdod lleol a bod y Byrddau hyn yn dod ag awdurdodau lleol a phartneriaid statudol ac anstatudol ynghyd i gydweithio i gynhyrchu cynlluniau ac asesiadau llesiant a nodir yn y ddeddfwriaeth. Disgwylir yr asesiadau llesiant lleol nesaf ym mis Mai 2022 ac mae gofyniad i gyhoeddi'r Cynlluniau Llesiant newydd erbyn mis Mai 2023.<br><br>Mae'r Ddeddf hefyd yn gwneud darpariaethau i uno dau neu fwy o Fyrddau Gwasanaethau Cyhoeddus i uno a chyflwynwyd cynigion i greu Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Rhanbarthol ar gyfer Gwent i uno pob un o'r pump Bwrdd presennol yng Ngwent i ffurfio un Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Rhanbarthol ac i'r Byrddau lleol ddod i ben. Fodd bynnag mae'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus wedi cytuno parhau i ganolbwyntio ar flaenoriaethau lleol drwy bartneriaethau cyflawni lleol.<br><br>Aeth y Rheolwr Gyfarwyddwr ymlaen drwy ddweud fod Atodiad 2 yr adroddiad yn nodi'r strwythur arfaethedig ar gyfer y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Rhanbarthol ac paragraff 2.9 yr adroddiad yn rhoi manylion y manteision yn gysylltiedig gyda'r newid.<br><br>Pe cymeradwyid y cynnig i symud i un Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Rhanbarthol, y dasg gyntaf fyddai cynnal Asesiad Llesiant i bob rhan o Went erbyn mis Mai 2022 a chyhoeddi Cynllun Llesiant Rhanbarthol erbyn Mai 2023. Nodwyd fod dwy flynedd ar ôl ar y Cynllun Llesiant presennol ar gyfer Blaenau Gwent a byddai hyn yn parhau i gael ei gyflenwi a'i oruchwylio gan y bartneriaeth cyflenwi lleol a byddai gwaith y Bwrdd | |

Gwasanaethau Cyhoeddus a chraffu ar y Cynlluniau Llesiant presennol yn parhau drwy graffu lleol ym mhob ardal unigol tan 2023 i sicrhau y cyflawnir blaenoriaethau. Yn gweithredu'n gyfochrog i'r trefniant hwn, trefnir strwythur craffu rhanbarthol cyn mis Mai 2022.

Hysbyswyd y Cyngor fod cydweithwyr yng Ngwent eisoes wedi ystyried a chymeradwyo'r symud tuag at Fwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Rhanbarthol a bod y partneriaid statudol ac anstatudol wedi cymeradwyo'r adroddiad. Roedd Pwyllgor Craffu Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Blaenau Gwent wedi ystyried ac wedi cytuno ar yr adroddiad ynghynt yr wythnos honno lle bu trafodaeth yn nhermau cymorth gweinyddol a chost, y sail gyfreithiol ar gyfer symud i'r trefniant hwn ac mae Aelodau yn awyddus i dderbyn gwybodaeth bellach o ran y trefniadau craffu. Yn ychwanegol, gofynnwyd am sicrwydd clir na fyddid yn colli'r ffocws ar flaenoriaethau lleol pe byddai'r cynnig yn cael ei gymeradwyo ac y byddai Aelodau yn ymwneud â datblygu trefniadau craffu ranbarthol. Gyda'r sicrwydd hwnnw, dywedodd y Rheolwr Gyfarwyddwr fod y Pwyllgor Craffu wedi cefnogi'r adroddiad.

Canmolodd Arweinydd y Grŵp Llafur y cynnig a dywedodd ei fod yn falch y byddid yn cadw'r trefniant lleol. Fodd bynnag, roedd wedi gweld y recordiad o Bwyllgor Craffu y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus yn gynharach y diwrnod hwnnw a mynegodd ei bryder fod Cadeirydd y Pwyllgor wedi dweud nad oedd unrhyw Aelodau Llafur yn bresennol ond heb ddweud y rheswm am hynny.

Dywedodd Arweinydd y Grŵp Llafur ei fod yn dymuno dodi ar gofnod mai'r rheswm pam na fu cynrychiolwyr y Grŵp Llafur yn bresennol oedd oherwydd bod y Grŵp Annibynnol Mwyafrifol wedi penderfynu cynnull cyfarfod oedd yn gwrthdaro gydag amseriad gwreiddiol Pwyllgor Craffu y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus. Er y cafodd y cyfarfod hwn ei ad-drefnu, roedd wedyn yn gwrthdaro gyda chyfarfod a drefnwyd ymlaen llaw o'r Grŵp Llafur. Dywedodd ei fod wedi ymateb yn syth ar y diwrnod y derbyniwyd yr hysbysiad i gynghori am y sefyllfa a dywedwyd wrtho y byddai'r cyfarfod yn mynd rhagddo. Roedd wedyn wedi ysgrifennu at y clerc a'r Rheolwr Gyfarwyddwr i hysbysu'r ddau ohonynt a dywedodd y teimlai fod y Grŵp yn haeddu'r un parch â'r Grŵp Annibynnol Mwyafrifol oherwydd y gellid tybio fod y Grŵp Llafur wedi penderfynu peidio mynychu'r Pwyllgor pan fod mewn gwirionedd reswm dilys am yr absenoldeb.

| | | |
|---|---|---|
| | Dywedodd Cadeirydd y Pwyllgor ei fod eisoes wedi anfon ymddiheuriad at y clerc oedd wedi ei hysbysu am y rheswm am yr absenoldeb ar y diwrnod hwnnw ond yn anffodus nid oedd wedi cael cyfle i agor ei e-bost tan ar ôl y cyfarfod o'r Pwyllgor.<br><br>Dywedodd Arweinydd y Cyngor na fwriadwyd unrhyw falais pan ad-drefnwyd y cyfarfod – yn debyg i drefniadau'r Grŵp Llafur, mae'r Grŵp Annibynnol Mwyafrifol hefyd yn cynnal cyfarfodydd a drefnwyd ymlaen llaw ar ddyddiau Mawrth cyn pob cyfarfod o'r Cyngor. Fodd bynnag, roedd wedi gofyn am ohirio dechrau'r Pwyllgor Craffu Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus am 30 munud oherwydd pwysau agenda'r Cyngor na fyddai'n cael ei drin yn yr amserlen a ddyrannwyd. Nid oedd wedi ystyried fod oedi o 30 munud yn ormod ac roedd yn y dyddiadur wythnos yn flaenorol. Fodd bynnag, nid oedd wedi sylweddoli fod hyn yn gwrthdaro gyda chyfarfod o'r Grŵp Llafur – nid oedd neb wedi cysylltu ag ef a dim ond ar ddiwrnod y cyfarfod y tynnwyd y mater i'w sylw. Cadarnhaodd na chafodd y cyfarfod ei ad-drefnu gydag unrhyw falais.<br><br>Croesawodd Aelod yr adroddiad ond roedd ganddo rai pryderon am Fwrdd Rhanbarthol. Teimlai fod Blaenau Gwent wedi colli mas pan ddaeth i iechyd, yn neilltuol a dywedodd y gobeithiai y byddai gan y Bwrdd Rhanbarthol fwy o ddylanwad a grym i gyflenwi'r cyhoedd gyda'r union wasanaethau y maent eu hangen.<br><br>Dywedodd Aelod ei fod yn siomedig iawn i fethu medru mynychu Cyfarfod Pwyllgor y Bwrdd ac nad hwn oedd y tro cyntaf y bu gwrthdaro gyda chyfarfodydd eleni. Gofynnodd pa sicrwydd y gellid ei roi y byddai Aelodau yn cael gweld holl gofnodion y Pwyllgor Rhanbarthol o fewn amserlen resymol fel y gellid eu craffu. Ar hyn o bryd, roedd proses un-ffordd gydag Aelodau ond yn gweld yr agendâu ac nid y cofnodion a dywedodd y gobeithiai y byddai'r Bwrdd Rhanbarthol yn gweithredu proses ddwy ffordd.<br><br>Dechreuodd Arweinydd y Cyngor drwy ddweud fod hyn o gonsyrn cyfartal i bob partner a dywedodd ar gyfer corff strategol mor fawr bod sicrhau bod craffu yn gywir o'r dechrau yn hollol hanfodol. Roedd rheolwyr craffu yn ystyried ar y cyd y rhesymeg tu ôl i ffurfio craffu rhanbarthol a byddai trefniadau craffu lleol yn parhau am gyfnod. Gan fod hwn yn gorff strategol mor fawr, roedd yn amau y byddai rheolwyr craffu yn ystyried effeithlonrwydd craffu (heb golli'r pwyslais lleol), oherwydd y byddai cyfle i ystyried a thrafod llawer o faterion ar sail Gwent gyfan. Ategodd ei bod yn hollol hanfodol fod | |

y broses craffu yn addas i’r diben a rhoi diwydrwydd dyladwy i’r materion sydd angen eu trafod ac, felly, ei bod yn hanfodol fod gwiriadau a balansau addas.

Dywedodd y Prif Swyddog Masnachol a Chwsmeriaid fod trefniadau ar gyfer craffu rhanbarthol yn cael eu datblygu ac y cynhelid adroddiad pellach arnynt a chadarnhaodd y byddai’r trefniadau craffu lleol yn parhau. Fel rhan o’r trefniadau craffu rhanbarthol, nodwyd y byddai cysylltiad clir gyda’r agwedd leol a chysylltiadau rhwng Cadeirydd y Pwyllgor Craffu a’r Bwrdd Rhanbarthol.

Mynegodd Aelod bryder fod angen rhywun gyda safbwyntiau clir iawn i ymladd y gornel dros Flaenau Gwent i bwysleisio’r effeithiau cadarnhaol neu negyddol i Flaenau Gwent, yn neilltuol gan y gallai fod pleidleisiau yn y cyfarfodydd rhanbarthol hyn.

Dywedodd Aelod ei bod yn amheus am Fwrdd Rhanbarthol ar y cyd oherwydd ei bod yn gwerthfawrogi Blaenau Gwent fel unigolyn ac nad oedd yr un ddau awdurdod yr un fath a’i bod yn bryderus y gellid anghofio am Flaenau Gwent o fewn prif ddibenion strategol y grŵp. Ar hyn o bryd byddai trefniadau lleol yn parhau a chroesewid hyn, sy’n cynnwys cynrychiolaeth trydydd sector a gofynnodd os byddai’r cyfraniad trydydd sector hwn yn parhau o fewn y trefniadau strwythurol newydd ar gyfer craffu.

Cadarnhaodd y Rheolwr Gyfarwyddwr y byddai craffu rhanbarthol yn caniatáu i gynrychiolaeth y sector gwirfoddol barhau fel y byddai gyda’r bartneriaeth cyflawni lleol ym Mlaenau Gwent.

Dywedodd Dirprwy Arweinydd y Grŵp Annibynnol Lleiafrifol ei fod wedi codi cwestiynau a phryderon ym Mhwyllgor Craffu y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus y diwrnod blaenorol am strwythur y Bwrdd Rhanbarthol ac y gallai symud at Fwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Gwent mwy arwain at golledion swyddi yn effeithio ar staff Blaenau Gwent. Dywedodd iddo ymatal rhag pleidleisio yn y cyfarfod hwn oherwydd y teimlai y byddai symud at sefydliad mwy ar gyfer Gwent gyfan yn gam tuag at ddod â chorff arall Blaenau Gwent i ben. Gofynnodd am gymryd pleidlais wedi’i chofnodi ar gyfer y cofnod cyhoeddus.

Cymeradwyodd Arweinydd y Cyngor gymeradwyo Opsiwn 1. Eiliwyd y cynnig hwn.

Dywedodd Arweinydd y Grŵp Llafur iddo gael ei benodi i'r Bwrdd yn flaenorol a dywedodd efallai na fyddai gan rai o'r Aelodau gymaint o bryderon pe gwyddent sut mae'r Bwrdd yn gweithredu. Dywedodd y gallai elfen strategol y Bwrdd Rhanbarthol a gweithio gyda phartneriaid fod yn ddefnyddiol ar gyfer datrys problemau posibl o fewn y gymuned a gwelai hyn fel rhywbeth cadarnhaol.

Cytunodd Arweinydd y Cyngor gyda sylwadau Arweinydd y Grŵp Llafur. Teimlai y byddai'r cynnig hwn yn wirioneddol o fudd i Blaenau Gwent ac i Went yn gyffredinol yn neilltuol yng nghyswllt trafodaethau am faterion sylweddol a rhoddodd sicrwydd i Aelodau fod pob partner yn cael eu trin yn gyfartal o safbwynt gwleidyddol o fewn y grŵp. Dywedodd fod y berthynas gyda'r Bwrdd Iechyd yn parhau i dyfu'n gryf am resymau amlwg a dywedodd fod y rhain yn gysylltiadau gwaith na fydd yn cael eu torri.

Aeth yr Arweinydd ymlaen drwy ddweud er bod yr awdurdod yn symud i Fwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Gwent-gyfan, y byddid yn ffurfio partneriaethau cyflawni lleol i ganolbwyntio mwy ar y materion sydd yn hollbwysig yn lleol a byddai'r dull hwn yn rhoi mwy o ddealltwriaeth o waith cyffredinol y Bwrdd. Nodwyd y byddai cyfran o waith y partneriaethau lleol yn bwydo i'r darlun ehangach felly byddai llif ddwy-ffordd o wybodaeth. Yr oedd yr un mor bwysig y caiff y bobl gywir yn wleidyddol ac yn broffesiynol yn cael eu penodi i'r bartneriaeth leol a'r Bwrdd Rhanbarthol. Roedd cysylltiadau rhwng y Bwrdd presennol a'r Pwyllgor Craffu gyda'r Cadeirydd a'r Is-gadeirydd wedi eu gwahodd i fynychu'r cyfarfodydd hyn ers cryn amser, fodd bynnag ni chafodd proses debyg ei defnyddio gan yr awdurdodau lleol eraill, felly roedd Blaenau Gwent wedi dylanwadu ar agendâu a byddai hynny'n parhau.

Yn dilyn trafodaeth faith, cymerwyd pleidlais wedi'i chofnodi ar gyfer y record gyhoeddus.

Cynigiodd Arweinydd y Cyngor gymeradwyo Opsiwn 1. Eiliwyd y cynnig hwn.

**O blaid Opsiwn 1 –** Cynghorwyr P. Baldwin, D. Bevan, J. Collins, M. Cook, M. Cross, N. Daniels, D. Davies, G. A. Davies, G. L. Davies, M. Day, L. Elias, D. Hancock, K. Hayden, S. Healy, J. Hill, J. Holt, J. Mason, H. McCarthy, C. Meredith, M. Moore, J. P. Morgan, L Parsons, G. Paulsen, K. Rowson, T. Sharrem, T. Smith, B. Summers, G. Thomas, S. Thomas, H. Trollope, J. Wilkins, D.

| | | |
|---|---|---|
| | Wilkshire, B. Willis, L. Winnett<br><br>**Yn erbyn Opsiwn 1** – Cynghorwyr M. Holland, J. Millard, K. Pritchard<br><br>**Ymatal** – Cynghorydd P. Edwards<br><br>**<u>Cariwyd </u>y bleidlais ar Opsiwn 1 (opsiwn a ffafrir).**<br><br>PENDERFYNWYD, yn amodol ar yr uchod, i dderbyn yr adroddiad a chymeradwyo Opsiwn 1, sef cytuno ar yr argymhellion dilynol:<br><br>**Argymhelliad 1:** Symud i Fwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus rhanbarthol fel yr amlinellwyd yn yr adroddiad gyda phwysigrwydd cynnal partneriaethau lleol cryf.<br><br>**Argymhelliad 2:** Sefydlu craffu ranbarthol a'r trefniadau sy'n datblygu, ac i dderbyn manylion pellach fel sy'n briodol.<br><br>**Argymhelliad 3:** Byddai asesiad lleol o lesiant, i'w gytuno erbyn 5 Mai 2022, yn rhan o waith Pwyllgor Craffu y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus<br>ar gyfer 2021/22.<br><br>**Argymhelliad 4:** Cefnogi cylch gorchwyl arfaethedig y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus rhanbarthol (Atodiad 5) a'r gofynion i wneud unrhyw newidiadau perthnasol i strwythur a chyfansoddiad y pwyllgor.<br><br>**Argymhelliad 5:** Datblygiad y Partneriaethau Cyflawni Lleol i'w ystyried mewn rhaglenni gwaith craffu lleol.<br><br>**Argymhelliad 6:** Parhau i gefnogi craffu y Cynlluniau Llesiant cyfredol hyd 2023 drwy drefniadau craffu presennol partneriaethau lleol. | |
| **No. 47** | **<u>POLISI WEDI EI DDIWEDDARU AR BRYDERON A CHWYNION</u>**<br><br>Ystyriodd Aelodau adroddiad y Pennaeth Cydymffurfiaeth Cyfreithiol a Chorfforaethol.<br><br>Dywedodd y Pennaeth Cydymffurfiaeth Cyfreithiol a Chorfforaethol fod yr Awdurdod Safonau Cwynion wedi llunio polisi enghreifftiol Pryderon a Chwynion a bod disgwyliad y byddai awdurdodau | |

| | | |
|---|---|---|
| | cyhoeddus yn mabwysiadu'r polisi enghreifftiol i sicrhau cysondeb trin cwynion ar draws Cymru. Cyflwynwyd y polisi i'r Pwyllgor Archwilio a Llywodraethiant ar 29 Mehefin a chafodd y sylwadau a wnaed gan y Pwyllgor yn cynnwys y sylwadau terfynol gan yr Ombwdsman eu cynnwys yn y polisi. Felly, polisi enghreifftiol oedd y polisi a gyflwynwyd gyda mân addasiadau lleol.<br><br>Yn y dyfodol, dywedwyd y byddai angen i'r Cyngor roi data ar sail chwarterol i'r Awdurdod Safonau Cwynion ac y byddai angen rhoi adroddiad ar yr wybodaeth hon i'r Pwyllgor Llywodraethiant ac Archwilio ddwywaith y flwyddyn h.y. mis Hydref a mis Ebrill.<br><br>Nodwyd fod y cyfeiriad at gwynion o fewn y polisi yn ymwneud â chwynion gwasanaeth ac mae'r drefn yng nghyswllt cwynion ymddygiad yn parhau heb newid. Yn ychwanegol, byddai cyfeiriad y Canolfan Ddinesig y cyfeirir ato yn y ddogfen polisi yn cael ei ddiweddaru i'r cyfeiriad gwasanaeth, a gafodd ei newid yn ddiweddar.<br><br>PENDERFYNWYD yn unfrydol, yn amodol ar yr uchod, i dderbyn yr adroddiad a chymeradwyo Opsiwn 1, sef mabwysiadu'r Polisi Pryderon a Chwynion a chyflwyno adroddiad cwynion i'r Pwyllgor Llywodraethiant ac Archwilio ddwywaith y flwyddyn ym mis Hydref a mis Ebrill bob blwyddyn. | |
| **No. 48** | **ADRODDIAD BLYNYDDOL CYFARWYDDWR GWASANAETHAU CYMDEITHASOL 2019/2020**<br><br>Ystyriodd Aelodau adroddiad y Cyfarwyddwr Corfforaethol Gwasanaethau Cymdeithasol.<br><br>Siaradodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol Gwasanaethau Cymdeithasol yn fyr am yr adroddiad ar wahoddiad y Cadeirydd a dywedodd ei bod yn gyfrifoldeb statudol ar y Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol i asesu effeithlonrwydd darpariaeth Gwasanaethau Cymdeithasol a chynhyrchu adroddiad blynyddol sy'n rhan o Fframwaith Adroddiadau Blynyddol y Cyngor.<br><br>Oherwydd y pwysau sydd ar y Gwasanaethau Cymdeithasol i ymateb i'r pandemig Covid, cytunodd Llywodraeth Cymru ohirio datblygu Adroddiad Blynyddol 2019/20. Fodd bynnag cytunodd Llywodraeth Cymru yn ddiweddarach y dylai'r adroddiad ar gyfer 2019/20 gael ei ddatblygu a'i gymeradwyo yn ogystal ag adroddiad ar wahân ar gyfer 2020/21 a gyflwynir i'r Cyngor yn ddiweddarach | |

| | | |
|---|---|---|
| | yn y flwyddyn (hydref).<br><br>Mae’r prif ddiweddariadau am Wasanaethau Plant ac Oedolion ym mharagraff 6 yr adroddiad. Daeth y Cyfarwyddwr Corfforaethol i ben drwy ddweud fod y Pwyllgor Craffu Gwasanaethau Cymdeithasol wedi cymeradwyo Opsiwn 1.<br><br>Gofynnodd Aelod i’w ddiolch gael ei gofnodi am waith yr adran drwy gydol y pandemig. Roedd staff wedi mynd tu hwnt i ddisgwyliadau a bu gwaith yr adran yn ardderchog a gofynnodd am ymestyn y diolch i’r holl staff.<br><br>Adleisiodd Aelod y Grŵp Llafur y sylwadau hwn a dywedodd y bu hon yn gamp wych a gofynnodd hefyd i nodi ei werthfawrogiad a’i longyfarchiadau am y gwaith da.<br><br>PENDERFYNWYD yn unfrydol, yn amodol ar yr uchod, i dderbyn yr adroddiad a chadarnhau Opsiwn 1, sef cymeradwyo’r manylion a gynhwysir yn Adroddiad Blynyddol 2019/20 y Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol. | |
| **No. 49** | <u>**DEDDF TRWYDDEDU 2003 – DATGANIAD POLISI TRWYDDEDU**</u><br><br>Rhoddwyd ystyriaeth i adroddiad y Rheolwr Gwasanaeth Diogelu’r Cyhoedd.<br><br>Siaradodd yr Aelod Gweithredol Adfywio a Datblygu Economaidd am yr adroddiad yn fyr a chynigiodd gymeradwyo Opsiwn 1. Eiliwyd y cynnig hwn.<br><br>PENDERFYNWYD yn unfrydol i dderbyn yr adroddiad a chymeradwyo Opsiwn 1, sef cymeradwyo polisi diwygiedig y Ddeddf Drwyddedu. | |
| **No. 50** | <u>**RHAGLEN GWAITH CYFALAF PRIFFYRDD 2021-22**</u><br><br>Rhoddwyd ystyriaeth i adroddiad Pennaeth Gwasanaethau Cymunedol.<br><br>Siaradodd y Pennaeth Gwasanaethau Cymunedol am yr adroddiad sy’n rhoi’r sefyllfa ddiweddaraf a chynnydd ar raglen cyfalaf 2017/2021 a chyflwynodd opsiynau ar gyfer rhaglen waith 2021/22. Esboniodd y daeth £4.4m ar gael hyd yma drwy grantiau | |

| | | |
|---|---|---|
| | Llywodraeth Cymru a benthyca darbodus i roi gwelliannau i'r rhwydwaith priffyrdd ac y bu ffocws y gweithiau hyn am y 3 blynedd ddiwethaf ar y priffyrdd preswyl sy'n ffurfio 74% o'r rhwydwaith.<br><br>Cyfanswm canran y ffyrdd diddosbarth mewn cyflwr gwael cyn dechrau'r gwaith oedd 17%. Fel canlyniad i'r tair blynedd flaenorol, cadwyd y ffigur hwn ar 11.4%. Hyd yma cafodd 82 o briffyrdd preswyl wyneb newydd ynghyd â gwaith blaenoriaeth i ffyrdd dosbarth A a B.<br><br>Mae £602,000 ar gael ar hyn o bryd yn rhaglen cyfalaf 2021/22 a'r bwriad yw canolbwyntio ar y ffyrdd preswyl yn y cyflwr gwaethaf ym mhob ward. Opsiwn arall ynghyd â'r ffyrdd ym mhob ward oedd edrych ar ffyrdd blaenoriaeth A a B ar gyfanswm cost o £912,000, a fyddai'n gadael diffyg o £310,000. Nodwyd fod lefel bresennol cronfa wrth gefn y rhaglen cyfalaf yn £1.26m a phe cytunid ar y cyllid ychwanegol hwn, byddai hyn yn gostwng y gronfa wrth gefn i £950,000.<br><br>Daeth y Pennaeth Gwasanaethau Cymunedol i ben drwy ddweud mai'r opsiwn a ffafrir yw Opsiwn 2.<br><br>Gofynnodd Aelod os y caiff argymhellion Cynghorwyr ei ystyried fel rhan o'r broses oherwydd ei fod wedi gwneud argymhellion blaenorol i'r adran ac na chawsant eu cydnabod.<br><br>Dywedodd y Pennaeth Gwasanaethau Cymunedol ei fod yn ymddiheuro os digwyddodd hynny a chadarnhaodd, er y cafodd y polisi ei fabwysiadu, os oes gan Aelodau bryderon penodol y byddant yn cael eu hystyried a byddai'r matrics yn cael ei werthuso yn unol â'r pryderon hynny. Mae hyn wedi digwydd nifer o weithiau hyd yma a dywedodd y byddai'n dilyn y mater penodol a godwyd gan yr Aelod ac yn cysylltu ag ef yn dilyn y cyfarfod.<br><br>Mynegodd Aelod ei bryder am faint rhai wardiau a dywedodd mai Ward Sirhywi oedd y ward fwyaf yn y Fwrdeistref Sirol ac mae angen trin mwy na un ffordd ynddi. Fodd bynnag, teimlai fod rhai wardiau llai yn cael blaenoriaeth a gofynnodd am i'r broses gael ei hadolygu yn y dyfodol.<br><br>Dywedodd Arweinydd y Grŵp Llafur fod cynghorwyr wardiau wedi rhoi sylwadau ac wedi cadarnhau y gwnaed newidiadau ond nad oedd y rhestr waith bresennol yn adlewyrchu hynny a gofynnodd | |

| | | |
|---|---|---|
| | am eglurhad os caiff hyn ei newid. Cadarnhaodd y Pennaeth Gwasanaethau Cymunedol y caiff y rhestr ei diwygio i adlewyrchu'r newid a gytunwyd.<br><br>PENDERFYNWYD yn unfrydol, yn amodol ar yr uchod, i dderbyn yr adroddiad a chymeradwyo Opsiwn 22, sef:<br><br>Opsiwn 2: Fel Opsiwn 1 (Ffordd Breswyl Blaenoriaeth Uchaf ym mhob Ward [cyfanswm o 16] a Ffordd Stad Ddiwydiannol Blaennant – Amcangyfrif Cyfanswm Cost £602,000) ynghyd â Ffyrdd Blaenoriaeth A a B a Gwaith Diogelwch Priffyrdd – Amcangyfrif Cyfanswm Cost £912,000.<br><br><u>Ffyrdd Blaenoriaeth A a B</u>:<br>o A4048 gwaith ailadeiladu llawn Heathfield<br>o A4046 wyneb newydd Ffordd Osgoi Cwm<br><br><u>Gwaith Rheoli Traffig Diogelwch Ffyrdd:</u><br>o Gosod rhwystr diogelwch newydd A4281 Garnlydan<br>o Gosod rhwystr diogelwch A467 Abertyleri. | |
| **No. 51** | **<u>RHYDDID Y FWRDEISTREF – GWEITHGOR TRAWSBLEIDIOL</u>**<br><br>Rhoddwyd ystyriaeth i adroddiad y cyfarfod a gynhaliwyd ar 20 Gorffennaf 2021.<br><br>Cynigiodd Arweinydd y Grŵp Llafur gymeradwyo'r adroddiad a'r argymhellion ynddo.<br><br>Cynigiodd Aelod y dylid cytuno i'r cais i gyflwyno Rhyddid y Fwrdeistref i'r Lleng Brydeinig Frenhinol. Mae'r sefydliad hwn wedi cefnogi byddin o wirfoddolwyr am dros 100 mlynedd ac wedi gofalu am gyn aelodau ac aelodau presennol y lluoedd arfog. Eiliwyd y cynnig.<br><br>Rhoddodd Aelodau eraill sylwadau fel sy'n dilyn yng nghyswllt cyflwyno Rhyddid y Fwrdeistref i'r cyn Gynghorwyr Malcolm Dally a Brian Scully:<br><br>- Mynegwyd pryder am gyflwyno Rhyddid y Fwrdeistref i gyn gynghorwyr a'i bod yn anaddas i wobrwyo cynghorwyr am swydd yr oeddent wedi derbyn cyflog i'w gwneud oherwydd y byddai hyn yn anfon y neges anghywir i staff a phreswylwyr a gallai fod yn niweidiol i forâl staff. | |

- Mae cynghorwyr yn derbyn tâl am eu gwaith a gallai gwasanaeth hir cyn gynghorwyr gael ei goffau gyda thystysgrif/gwobr yn lle.

- Nid oedd y cyn gynghorwyr profiadol hyn wedi cael tâl yn ystod y cyfnod y buont yn gwneud y swydd ac nid oedd hyn ynddo'i hyn yn llawer o ddadl pan gafodd y Rhyddid ei gyflwyno'n ddiweddar i bencampwr chwaraeon, cafodd ei gydnabod am yr hyn a gyflawnodd mewn chwaraeon ac nid am gael ei dalu. Daeth yr Aelod i ben drwy gefnogi argymhellion y gweithgor.

- Mewn blynyddoedd blaenorol cafodd Rhyddid y Fwrdeistref ei gyflwyno i gyn gynghorydd am ei wasanaeth hir a hefyd i gyn swyddog o'r awdurdod, felly cafodd cynsail ei osod eisoes.

- Dywedodd Aelod y dymunai gofnodi ei werthfawrogiad i'r cyn gynghorwyr am eu gwasanaeth hir i'r Fwrdeistref Sirol – roedd dros 40 mlynedd o wasanaeth i gael ei gymeradwyo ond credai fod cyflwyno Rhyddid y Fwrdeistref yn gam yn rhy bell. Mae swydd cynghorydd yn un sy'n derbyn tâl ac mae hyn yn ddigon o wobr ynddo'i hun. Cynigiodd na ddylid cytuno i gyflwyno Rhyddid y Fwrdeistref i'r cyn gynghorwyr Scully a Dally.

- Mae'r cyn gynghorwyr hyn wedi rhoi gwasanaeth da i'r Fwrdeistref Sirol am flynyddoedd lawer ac wedi gweithio'n galed yn ystod eu cyfnod yn eu swyddi, ac felly cynigiodd y dylid cymeradwyo argymhellion y gweithgor.

- Dywedodd Aelod y dymunai nodi nad oedd yn adnabod na'n gwybod am y naill na'r llall o'r ddau gyn gynghorydd ond ei bod wedi gwrando ar y sylwadau. Dywedodd fod hyd eu gwasanaeth i'w gymeradwyo'n fawr ond dywedodd mai Rhyddid y Fwrdeistref oedd yr anrhydedd uchaf y gallai'r awdurdod ei gyflwyno ac nid oedd yn cytuno gydag egwyddor cyflwyno Rhyddid y Fwrdeistref i gyn gynghorwyr.

- Cyflwynwyd Rhyddid y Fwrdeistref i'r cyn gynghorydd Rex Herbert oherwydd iddo wasanaethu'n ddi-dor am 52 mlynedd ac mai ef oedd y cynghorydd gyda'r gwasanaeth hiraf yng Nghymru a Phrydain gyfan ar y bryd. Roedd hefyd

wedi gwasanaethu fel Maer ar ddau achlysur. Fodd bynnag, mae'r oes wedi newid a chaiff enw da cynghorwyr ei weld yn wahanol ac ni fyddai'r cyhoedd yn maddau gwobrwyo cynghorwyr am eu gwasanaeth.

- Dywedodd Arweinydd y Grŵp Llafur y cyflwynwyd yr enwebiadau hyn yn ddidwyll ac mae'r drafodaeth hon yn achosi embaras oherwydd ei bod o fewn y parth cyhoeddus. Mae'r ffaith y cyflwynwyd Rhyddid y Fwrdeistref i'r cyn gynghorydd Rex Herbert wedi gosod cynsail gan ei fod yn gynghorydd ar y pryd oedd hefyd wedi derbyn tâl am wneud y swydd, felly nid oes gwahaniaeth.

Mewn ymateb i gwestiwn am gyflwyno Rhyddid y Fwrdeistref i'r Lleng Brydeinig Frenhinol, dywedodd y Pennaeth Cydymffurfiaeth Cyfreithiol a Chorfforaethol y cafodd hyn ei gyflwyno'n flaenorol i sefydliad arall ac y cyflwynir yr anrhydedd i'r corff corfforaethol ac y byddai un o'u cynrychiolwyr yn derbyn yr anrhydedd ar ran y sefydliad.

Mewn ateb i gwestiwn pellach, dywedodd y Pennaeth Cydymffurfiaeth Cyfreithiol a Chorfforaethol mai dim ond argymhelliad a wnaeth y gweithgor i'r Cyngor, felly na chymerwyd unrhyw benderfyniad cyfreithiol ar hyn o bryd, mae'n fater i'r Cyngor ei benderfynu.

Gadawodd y Cynghorydd Millard y cyfarfod ar y pwynt hwn,

Yn dilyn trafodaeth faith,

PENDERFYNWYD yn unfrydol i'r cais i gyflwyno Rhyddid y Fwrdeistref i'r Lleng Brydeinig Frenhinol.

Cynigiwyd ac eiliwyd y dylid cymryd pleidlais wedi'i chofnodi yng nghyswllt cyflwyno Rhyddid y Fwrdeistref i'r cyn gynghorwyr Brian Scully a Malcolm Dally:

**O blaid cyflwyno rhyddid y Fwrdeistref i'r cyn gynghorwyr Brian Scully a Malcom Dally –** Cynghorwyr P. Baldwin, D. Bevan, M. Cross, P Edwards, L. Elias, K. Hayden, H. McCarthy, K. Pritchard, T. Sharrem, T. Smith, S. Thomas, H. Trollope, D. Wilkshire, B. Willis, L. Winnett

**Yn errbyn cyflwyno rhyddid y fwrdeistref i'r cyn gynghorwyr**

| | | |
|---|---|---|
| | **Brian Scully a Malcolm Dally –** Cynghorwyr J. Collins, M. Cook, N. Daniels, D. Davies, G. A. Davies, G. L. Davies, M. Day, D. Hancock, S. Healy, J. Hill, J. Holt, J. Mason, C. Meredith, M. Moore, L. Parsons, G. Paulsen, K. Rowson, B. Summers, G. Thomas, J. Wilkins<br><br>**Ymatal –** Cynghorydd M. Holland<br><br>PENDERFYNWYD YMHELLACH, yn amodol ar yr uchod, i beidio cytuno i'r cais i gyflwyno Rhyddid y Fwrdeistref i'r cyn gynghorwyr Brian Scully a Malcolm Dally. | |
| **No. 52** | **<u>ADRODDIAD AELODAETH</u>**<br><br>Rhoddwyd ystyriaeth i:<br><br>**<u>Cyngor Iechyd Cymunedol Aneurin Bevan</u>**<br>- penodi dau gynrychiolydd i'r uchod.<br><br>Dywedodd yr Arweinydd nad oedd wedi derbyn unrhyw enwebiadau ar gyfer y swydd hyd yma.<br><br>**<u>Panel Ymgynghorol Llywodraethwyr Ysgol yr Awdurdod Lleol</u>**<br><br>Gwnaeth y Panel ar 21 Mehefin 2021 yr argymhellion dilynol i benodi:<br><br>**Ysgol Gynradddd Blaen-y-Cwm** – Stephen Connolly<br><br>**Ysgol Gynradd Trehelyg** – Judith Waring<br><br>**Cymuned Ddysgu Ebwy Fawr** – Adam King<br><br>**Ysgol Gynradd Glanhywi** – Cynghorydd T. Smith<br><br>Mewn pleidlais,<br><br>PENDERFYNWYD yn unfrydol i gymeradwyo'r apwyntiadau uchod.<br><br>**<u>Cymdeithas Llywodraeth Leol – Cynulliad Cyffredinol</u>** | |

<table>
<tr><td></td><td>Nodi penodi’r Arweinydd a’r Dirprwy Arweinydd i’r uchod.<br><br>PENDERFYNWYD yn unol â hynny.</td><td></td></tr>
<tr><td>No. 53</td><td><u>AMSER CYFARFODYDD CYNGOR Y DYFODOL</u><br><br>Rhoddwyd ystyriaeth i amser cyfarfodydd y Cyngor yn y dyfodol.<br><br>PENDERFYNWYD y byddai cyfarfodydd y Cyngor yn dechrau am 10.00 a.m. o hyn ymlaen.</td><td></td></tr>
<tr><td>No. 54</td><td><u>CYNNIG – DIWRNOD 999 GWASANAETHAU ARGYFWNG 2021</u><br><br>Oherwydd yr angen i ystyried yr eitem fel mater o frys, cadarnhaodd Cadeirydd y Cyngor y gellid ystyried y mater dan ddarpariaethau Paragraff 4(b), Adran 100(b) Deddf Llywodraeth Leol 1972.<br><br>PENDERFYNWYD yn unfrydol:<br><br>- Bod y Cyngor yn cofnodi ei gefnogaeth ar gyfer ‘Diwrnod Gwasanaethau Argyfwng’ cenedlaethol blynyddol y Deyrnas Unedig a gynhelir ar 9 Medi ac a gefnogir gan Ei Mawrhydi Y Frenhines Elizabeth II.<br>- Bod y Cyngor yn cofnodi ei werthfawrogiad diffuant i’r ddwy filiwn o bobl sy’n gweithio ac yn gwirfoddoli yn y GIG a’r gwasanaethau argyfwng heddiw.<br>- Bod y Cyngor yn cytuno i gyhwfan y faner swyddogol ar ‘Ddiwrnod Gwasanaethau Argyfwng’ uwchben neuadd y dref ar 9 Medi bob blwyddyn i nodi Diwrnod 999.<br><br>Gofynnodd Aelod y dylai’r cynnig gydnabod yr aelodau hynny o’r gwasanaethau argyfwng a gollodd eu bywydau yn ystod y pandemig.<br><br>PENDERFYNWYD YMHELLACH yn unol â hynny.<br><br>Gadawodd y Cynghorydd J. Collins y cyfarfod ar y pwynt hwn.</td><td></td></tr>
<tr><td>No. 55</td><td><u>EITEM(AU) EITHRIEDIG</u><br><br>Derbyn ac ystyried yr adroddiadau dilynol sydd ym marn y</td><td></td></tr>
</table>

| | | |
|---|---|---|
| | swyddog priodol yn eitemau eithriedig gan roi ystyriaeth i'r prawf budd cyhoeddus ac y dylai'r wasg a'r cyhoedd gael eu heithrio o'r cyfarfod (mae'r rhesymau am y penderfyniadau am yr eithriad ar gael ar restr a gedwir gan y swyddog priodol). | |
| **No. 56** | **<u>TIR ELUSENNOL, CYN YSGOL GYMRAEG, STRYD Y BRENIN, BRYNMAWR</u>**<br><br>Gan ystyried y farn a fynegwyd gan y Swyddog Priodol parthed y prawf budd cyhoeddus, o bwyso a mesur popeth fod y budd cyhoeddus mewn cynnal yr eithriad yn fwy na'r budd cyhoeddus mewn datgelu'r wybodaeth ac y dylai'r adroddiad gael ei eithrio.<br><br>PENDERFYNWYD eithrio'r cyhoedd tra caiff yr eitem hon o fusnes ei thrafod gan ei bod yn debygol y byddai datgeliad o wybodaeth eithriedig fel y'i diffinnir ym Mharagraff 14, Atodlen 12A Deddf Llywodraeth Leol 1972 (fel y'i diwygiwyd).<br><br>Rhoddwyd ystyriaeth i adroddiad y Cyfarwyddwr Corfforaethol Adfywio a Gwasanaethau Cymunedol.<br><br>Croesawodd Aelod Ward yr adroddiad a dywedodd y bu aros mawr am hyn. Mae'r ardal mewn cyflwr diffaith ar hyn o bryd ac edrychai ymlaen at ddatblygu'r safle.<br><br>PENDERFYNWYD yn unfrydol i dderbyn yr adroddiad sy'n cyfeirio at faterion ariannol neu fusnes unrhyw berson neilltuol (yn cynnwys yr awdurdod) a chymeradwyo Opsiwn 1, sef bod y Cyngor yn gweithredu fel Ymddiriedolwyr yn cytuno ar y dilynol:<br><br>1) Bod yr Ymddiriedolwyr yn gwneud cais am 'gynllun'.<br><br>2) Y byddai unrhyw incwm o werthu'r safle ysgol o fudd cyfartal i ysgol Blaen-y-Cwm, Eglwys yng Nghymru y Santes Fair ac Ysgol Gatholig y Santes Fair. | |
| **No. 57** | **<u>RHEILFFORDD CWM EBWY</u>**<br><br>Gan ystyried y farn a fynegwyd gan y Swyddog Priodol parthed y prawf budd cyhoeddus, o bwyso a mesur popeth fod y budd cyhoeddus mewn cynnal yr eithriad yn fwy na'r budd cyhoeddus mewn datgelu'r wybodaeth ac y dylai'r adroddiad gael ei eithrio.<br><br>PENDERFYNWYD eithrio'r cyhoedd tra caiff yr eitem hon o fusnes | |

ei thrafod gan ei bod yn debygol y byddai datgeliad o wybodaeth eithriedig fel y'i diffinnir ym Mharagraff 14, Atodlen 12A Deddf Llywodraeth Leol 1972 (fel y'i diwygiwyd).

Cyflwynwyd adroddiad y Cyfarwyddwr Corfforaethol Adfywio a Gwasanaethau Cymunedol i gael ei ystyried.

Ar wahoddiad y Cadeirydd, siaradodd y Pennaeth Adfywio yn fanwl am yr adroddiad a thynnu sylw at y pwyntiau perthnasol ynddo. Esboniodd y swyddog fod yr adroddiad yn rhoi manylion y Cytundeb Benthyciad a'r Cytundeb Pedairochrog. Byddai'r cynnig hwn yn fenter ar y cyd rhwng y Cyngor a'r cyrff a enwir ynddo.

Nodwyd fod y Cytundeb Pedairochrog yn rhoi manylion swyddi a chyfrifoldebau pob un o'r partneriaid i gyflawni'r prosiect rheilffyrdd yn llwyddiannus. Yn ychwanegol, mae Cytundeb Gweithredu yn ddogfen gontract sy'n mynd dan y Cytundeb Pedairochrog a fyddai'n ymdrin â darpariaeth y prosiect.

Aeth y Pennaeth Adfywio ymlaen drwy amlinellu rolau a chyfrifoldebau pob un o'r sefydliadau partner fel y'u manylir ym mharagraff 2.9 yr adroddiad. Mae'r ddogfen yn nodi'n glir mai Llywodraeth Cymru sy'n gyfrifol am ddarpariaeth y benthyciad a'r ymrwymiad ariannol ar gyfer y rhaglen yn cynnwys risgiau gorwariant tu hwnt i swm y benthyciad. Byddai Llywodraeth Cymru hefyd yn parhau i lobio Adran Trafnidiaeth Llywodraeth y Deyrnas Unedig am gyllid ychwanegol i hwyluso gwaith Cam II (Dolen Abertyleri).

Daeth y Pennaeth Adfywio i ben drwy ddweud fod y Pwyllgor Craffu Adfywio wedi ystyried yr adroddiad ac wedi cefnogi Opsiwn 1.

Wedyn gofynnwyd am farn Aelodau (crynodeb islaw) ac ymatebwyd iddynt gan y Rheolwr Gwasanaeth, Pennaeth Adfywio, Rheolwr Gwasanaeth – Cyfrifeg, Aelod Gweithredol Adfywio a Datblygu Economaidd.

- Mynegodd Arweinydd y Grŵp Llafur ei gonsyrn y cafodd y penderfyniad ei wneud yn y Pwyllgor Craffu Adfywio heb wybodaeth lawn o'r Cytundeb Pedairochrog. Pe cytunid ar y cynnig hwn, gofynnodd os y byddid yn cyhoeddi datganiad i'r wasg i'r cyhoedd (gan fod hwn yn adroddiad cyfrinachol heb fod o fewn y parth cyhoeddus) ac os felly, os y byddai hyn yn

datgelu'r ffaith mai Llywodraeth Cymru fyddai'n gyfrifol pe byddai unrhyw ddiffyg neu rwymedigaeth ariannol yn gysylltiedig gyda'r benthyciad.

Eglurodd yr Aelod Gweithredol – Adfywio a Datblygu Economaidd na fyddai'r Cyngor yn atebol yn ariannol am y benthyciad neu os oedd diffyg, cyfrifoldeb Llywodraeth Cymru fyddai hynny. Byddai angen cynnal trafodaethau gyda Llywodraeth Cymru yng nghyswllt yr agweddau cyllid ond gellid sicrhau'r cyhoedd na fyddai Cyngor Bwrdeistref Sirol Blaenau Gwent yn cario unrhyw rwymedigaeth ariannol.

- Cyfeiriodd Arweinydd y Grŵp Llafur at baragraff 6.1.2 yr adroddiad a gofynnodd os byddai Llywodraeth Cymru yn lliniaru'r effaith ar ddarpariaeth isafswm refeniw y Cyngor neu os byddai'n rhaid i'r Cyngor gario'r baich hwn.

  Cadarnhaodd y Rheolwr Gwasanaeth – Cyfrifeg y byddai effaith ar yr isafswm darpariaeth refeniw ond y byddai'r Ffi Datblygu Asedau a delid i'r Cyngor yn gwrthbwyso'r gost hon, felly ni fyddai unrhyw gynnydd yn yr isafswm darpariaeth refeniw. Cytunodd Gweinidogion y byddai'r gyllideb flynyddol a ddyrannwyd i Trafnidiaeth Cymru yn ddigonol ar gyfer y Ffi Datblygu Asedau os na fyddai'r refeniw teithwyr yn ddigon.

- Cyfeiriodd Arweinydd y Grŵp Llafur at yr adroddiad dechreuol a ystyriodd y Cyngor ym mis Mawrth oedd yn cyfeirio at y ffaith y byddai'r incwm o 2 drên yr awr ar reilffordd Cwm Ebwy yn talu am yr ad-daliadau. Fodd bynnag, dywedodd na chynhaliwyd unrhyw fodelu cyn belled ag y gwyddai a gan fod hwn yn arian cyhoeddus, y dylai modelu fod wedi ei gynnal ar y cynnig. Gofynnodd hefyd am wybodaeth am nifer defnyddwyr.

  Cadarnhaodd y Pennaeth Adfywio y cafodd y dadleuon economaidd eu nodi yn adroddiad WelTAG a ddatblygwyd ar gyfer cynyddu amlder a bod Llywodraeth Cymru yn fodlon fod y buddsoddiad i wneud y lein yn ddeuol yn werth am arian. Nododd fod yr astudiaeth hon wedi cynnwys nifer defnyddwyr. Os oedd Llywodraeth Cymru yn ansicr am hyfywedd y cynnig, dywedwyd na fyddai wedi ei gynnwys o fewn Strategaeth Trafnidiaeth Cymru 2021.

Dywedodd Arweinydd y Grŵp Llafur y byddai wedi hoffi gweld y modelu yn arbennig gan fod ystyriaeth yn cael ei roi i fenthyciad 50-mlynedd oherwydd y gallai fod potensial ar gyfer goblygiadau ariannol y gallai'r benthyciad ei gael ar y Cyngor yn y dyfodol. Mynegodd ei bryder hefyd na chafodd Dolen Abertyleri ei chynnwys fel rhan o'r cynllun a dywedodd fod angen lobio dros hyn.

Esboniodd y Pennaeth Adfywio y sicrhawyd darn o dir ar gyfer gwaith Cam II yn ddiweddar fodd bynnag byddai Llywodraeth Cymru yn parhau i lobio Llywodraeth y Deyrnas Unedig am gyllid ychwanegol i hwyluso Dolen Abertyleri. Nodwyd y cafodd y lein ar gyfer Dolen Abertyleri ei ddynodi fel rhan o reilffordd Llywodraeth y Deyrnas Unedig a disgwylir penderfyniad terfynol.

- Dywedodd Aelod arall ei fod yn ddiolchgar am yr wybodaeth ychwanegol a gafwyd. Fodd bynnag, roedd y Pwyllgor Craffu wedi gwneud penderfyniad a mynegodd ei bryder ei fod yn ymddangos fod y swyddogion yn gwrthod y penderfyniad hwnnw. Dywedodd na fyddai angen craffu yn y dyfodol pe bai hyn yn dod yn arferol.

  Aeth ymlaen drwy ddweud y dylai fod ymgynghoriad cyhoeddus am y cynnig a mynegodd ei bryder nad oedd unrhyw warant y byddai Dolen Abertyleri yn dod i fodolaeth. Ychwanegodd fod 60% o'r teithwyr sy'n defnyddio'r lein yn dod o'r tu allan i Flaenau Gwent a gofynnodd pam na chysylltwyd â Chaerffili a Chasnewydd i rannu peth o'r cyfrifoldeb.

  Cadarnhaodd y Rheolwr Gweithredol nad oedd swyddogion wedi gwrthod penderfyniad y Pwyllgor Craffu, bu trafodaeth glir yn y cyfarfod hwn ac roedd Aelodau wedi gofyn am weld y ddogfen gyfreithiol oherwydd maint y prosiect. Er na chaiff dogfennau cyfreithiol eu darparu fel arfer fel rhan o adroddiadau, rhoddwyd ystyriaeth ddyladwy i farn y Pwyllgor Craffu a chafodd y ddogfen hon ei darparu fel atodiad i adroddiad y Cyngor, felly cytunwyd â chais y Pwyllgor Craffu.

  Yng nghyswllt cysylltu â Caerffili a Chasnewydd, dim ond i Flaenau Gwent y cynigiwyd y benthyciad. Mae'r adroddiad yn dangos y rhoddwyd sicrwydd na fyddai Blaenau Gwent yn

cymryd yr holl risg, byddai unrhyw rwymedigaeth ariannol yn gyfrifoldeb Llywodraeth Cymru.

- Mynegodd Aelod ei bryder na chafodd y Cytundeb Pedairochrog ei adolygu o safbwynt cyfreithiol ac nad yw'r adroddiad yn rhoi manylion asesiad effaith ar sut y byddai'r cynnig yn effeithio ar breswylwyr, staff, yr amgylchedd, busnesau a'r Cyngor yn cynnwys yr effaith ar y gwasanaethau bws yng Nghwm Ebwy Fawr neu ardal Tredegar.

  Cadarnhaodd y Rheolwr Gyfarwyddwr y cafodd cryn dipyn o waith cyfreithiol ei wneud ar y cynnig. Fodd bynnag, roedd yn cydnabod y pwynt a wnaed am yr asesiad effaith ond dywedodd y cafodd 4 trên yr awr i Lynebwy eu cynnwys fel blaenoriaeth o fewn Cynllun Corfforaethol y Cyngor a bod y cynnig hwn yn cael ei gyflwyno fel blaenoriaeth a gytunwyd gan y Cyngor.

  Ychwanegodd y Rheolwr Gyfarwyddwr fod proses WelTAG wedi cynnwys asesiadau technegol manwl iawn ac wedi asesu'r effaith ar draws ystod o fesurau cyn i Lywodraeth Cymru benderfynu symud ymlaen gyda'r cynnig.

  Gofynnodd yr Aelod os y gallai'r asesiad effaith fod ar gael a gofynnodd sut effaith fyddai gan y cynnig hwn yn neilltuol ar dref Glynebwy gan y byddai pobl yn teithio allan o'r dref.

  Rhoddodd y Pennaeth Cydymffurfiaeth Cyfreithiol a Chorfforaethol sicrwydd fod cynghorwyr cyfreithiol allanol gydag enw da wedi ymwneud â llunio'r Cytundeb Pedairochrog rhwng partïon a bod swyddogion yn fodlon fod y risg i'r Cyngor mor isel fyth ag y gallai fod yn yr amgylchiadau. Cafodd y cytundeb ei danysgrifio a'i warantu gan Lywodraeth Cymru.

- Cododd Aelod arall y pwyntiau dilynol:

  - Pa mor gadarn yw'r cytundeb cyfreithiol na fyddai unrhyw faich ariannol yn cael ei roi ar breswylwyr ym Mlaenau Gwent yn y dyfodol.

  - Pam na fu unrhyw gydweithio gyda chynghorau eraill ar y cytundeb oherwydd y byddai'r ardaloedd hyn yn

cael mwy o fudd o’r cynnig.

- Byddai’r cynnig yn effeithio ar fenthyca’r Cyngor yn y dyfodol a gofynnodd pam nad yw Llywodraeth Cymru wedi rhoi grant yn hytrach na benthyciad oherwydd byddai hyn yn cyfyngu benthyca yn y dyfodol ac mae benthyciadau yn llai ffafriol o safbwynt credyd.

- Pam na chafodd Dolen Abertyleri ei chynnwys fel rhan o’r cynnig? Gyda’r adferiad o’r pandemig, pa mor realistig fyddai i dderbyn y cyllid gan Lywodraeth y Deyrnas Unedig ar gyfer Dolen Abertyleri?

- Dylid rhoi manylion yr asesiad effaith yn neilltuol, gan roi manylion yr effaith y byddai’r cynnig yn ei gael ar drefi.

- Dylai’r holl ddogfennau fod wedi bod ar gael i Aelodau eu gweld yn y Pwyllgor Craffu.

Esboniodd y Rheolwr Gwasanaeth – Cyfrifeg y rhoddir adroddiad ar fanylion y benthyciad yn cynnwys benthyca fel rhan o adroddiad 6 misol Rheoli Trysorlys (disgwylir yr adroddiad arferol nesaf yn yr hydref) a byddai dangosyddion darbodus hefyd yn cael eu hadolygu i roi ystyriaeth i’r cyllid hwn. Fodd bynnag, nodwyd y byddai effaith y benthyciad yn cael ei liniaru oherwydd y derbynnid cyllid i ad-dalu’r benthyciad.

Cadarnhaodd y Pennaeth Adfywio y cafodd y tir ar gyfer Dolen Abertyleri ei sicrhau’n ddiweddar ar gyfer darparu terminws sydd wedi galluogi Llywodraeth Cymru i lobio Llywodraeth y Deyrnas Unedig am gyllid ar gyfer Dolen Abertyleri. Ni chafodd cyllid ar gyfer y gwaith Cam II ei gynnwys yn y benthyciad oherwydd mai Llywodraeth y Deyrnas Unedig yw perchnogion y lein. Nodwyd fod Adroddiad Burns wedi dynodi darnau o seilwaith a allai fod o fudd economaidd i ardal y gellid ei defnyddio i wella trafnidiaeth mewn modd amgylcheddol ar draws y Deyrnas Unedig.

Mewn ymateb i fater a godwyd, cadarnhaodd y Rheolwr Gyfarwyddwr fod Dolen Abertyleri yn dal i fod yn rhan o gynigion cam 2 Bargen Ddinesig Prifddinas Ranbarth

Caerdydd. Nodwyd y byddai cyllid o'r Fargen Ddinesig ar gyfer y cynigion dylunio oherwydd y byddai Trafnidiaeth Cymru yn gweithredu'r cynllun ei hun.

- Mynegodd Aelod ei bryder ac ailddatgan ei bryderon blaenorol y byddai Blaenau Gwent yn cymryd yr holl faich ac na wyddai pam na allai Network Rail fod wedi cynnig am y seilwaith ac y daeth Blaenau Gwent ynghlwm ar gam gwaith Cam II Dolen Abertyleri. Roedd yn ansicr os byddai'r cynnig yn werth am arian gan na chynhaliwyd asesiad am ddefnydd a mynegodd ei bryder y byddai mwy o bobl yn teithio allan o Flaenau Gwent nag i mewn i'r ardal.

- Gofynnwyd am eglurhad am gost y tir a brynwyd yn Abertyleri ynghyd â'r goblygiadau pe na bai Dolen Abertyleri yn dod i fod.

  Dywedodd y Pennaeth Adfywio y defnyddiwyd grant trafnidiaeth i brynu'r tir a rhoddodd fanylion y gost. Cafodd y ffigur prynu ei gynnwys mewn adroddiad a gyflwynwyd i'r Cyngor yn gynharach yn y flwyddyn. Pe na byddai Dolen Abertyleri yn dod i fod, defnyddid y tir ar gyfer dibenion eraill.

  Dywedodd y Rheolwr Gyfarwyddwr fod ymrwymiad gan Lywodraeth Cymru i sicrhau 4 trên yr awr i Lynebwy a dyma pam fod Llywodraeth Cymru yn dilyn y prosiect ac yn darparu'r benthyciad. Roedd asesiad technegol WelTAG wedi dod i'r casgliad y byddai buddsoddiad yn y lein yn rhoi gwerth am arian.

  Yng nghyswllt gweithio partneriaeth, amserlen fer iawn sydd gan y Llywodraeth i ymateb i'r cynnig o fenthyciad gan Lywodraeth Cymru – nodwyd y gofynnwyd am grant ond mai dim ond benthyciad oedd ar gael ar y pryd. Dim ond i Flaenau Gwent y cynigiwyd y benthyciad ac oherwydd bod dyddiad dechrau'r prosiect ar fin cyrraedd (haf eleni), byddai wedi achosi oedi yn y prosiect pe byddid wedi cynnal trafodaethau gyda phartïon eraill. Ategodd y Rheolwr Gyfarwyddwr y byddai Llywodraeth Cymru yn cymryd unrhyw ymrwymiadau ariannol a bod yn rhaid i'r cynnig symud ymlaen yn gyflym i sicrhau buddion i'r gymuned.

- Cyfeiriwyd at greu Hybiau Cymunedol a bod pobl yn awr yn gweithio gartref ac eto mae capasiti ar drenau'n cael ei

gynyddu.

- Roedd hwn yn fuddsoddiad unwaith mewn cenhedlaeth sydd angen ei ystyried yn gadarnhaol a dylid hefyd ystyried y neges y byddai'n ei anfon i'r cyllidwyr pe na fyddai'r Cyngor eisiau buddsoddi yn y bobl neu gymunedau neu seilwaith i gefnogi'r economi gwyrdd sydd y ffordd ymlaen. Roedd yn fodlon fod y Cytundeb Pedairochrog yn rhoi'r sicrwydd angenrheidiol y byddai'r benthyciad yn cael ei ad-dalu.

- Dywedodd Aelod ei fod yn byw ger rheilffordd ac y credai fod 4 trên yr awr yn ormod ac y byddai'n anhyfyw, yn arbennig gyda phobl yn gweithio gartref.

- Dywedodd Arweinydd y Grŵp Llafur y dylid bod wedi cynnal ymgynghoriad ar y cynnig i ganfod barn y bobl am y cynnydd yn y gwasanaeth trên.

Yn dilyn trafodaeth faith, cynigiodd Arweinydd y Grŵp Llafur i **gymeradwyo Opsiwn 2 am y rhesymau dilynol:**

- **Teimlid y byddai Casnewydd a Chaerffili yn cael budd (mwy na Blaenau Gwent mae'n debyg) ac nid ydynt yn cael eu gwahodd i rannu'r risg.**
- **Nid yw'r benthyciad yn cynnwys cyllid ar gyfer Dolen Abertyleri oedd wedi ei haddo, ond roedd yn dal i fod mor bell i ffwrdd ag erioed, yn arbennig yng ngoleuni gostyngiad arfaethedig mewn gwariant cyfalaf fel canlyniad ariannol uniongyrchol i'r pandemig.**
- **Nid yw'r weinyddiaeth wedi dangos digon o bethau cadarnhaol amlwg i Flaenau Gwent ar ben ei hun i ymrwymo i brosiect 50-mlynedd.**
- **Roedd gan Blaenau Gwent nifer o flaenoriaethau eraill llawer uwch megis y cefnlwyth presennol o waith atgyweirio sydd ei fawr angen i briffyrdd a draeniad ac yn y blaen.**
- **Mae gan y benthyciad y potensial i gael effaith negyddol ar fenthyciadau'r dyfodol ar gyfer y Cyngor.**
- **Ni chafodd unrhyw ddata/tystiolaeth ei gynhyrchu i ddangos y byddai'r blwch arian yn ddigonol i dalu am y benthyciad, sydd wedi'r cyfan yn arian cyhoeddus.**
- **Ni fu unrhyw ymgynghoriad cyhoeddus am y cynnig hwn.**

**Felly cafodd y cynnig arall hwn ei eilio.**

Felly, gofynnwyd am bleidlais wedi'i chofnodi.

Cynigiodd yr Aelod Gweithredol – Adfywio a Datblygu Economaidd y dylid cymeradwyo Opsiwn 1. Teimlai fod y Cyngor wedi ei ddiogelu o ran y cytundeb a dywedodd mai cyfle ac nid rhwymedigaeth yw hyn. Yn ogystal â gwella'r lein i waith Cam 1 Cwm Ebwy, byddai hefyd yn gatalydd i sicrhau Cam 11, Dolen Abertyleri. Eiliwyd y cynnig.

Cododd Arweinydd y Grŵp Llafur bwynt o drefn a dywedodd y byddai wedi croesawu cyfraniad gan yr Aelod Gweithredol at y drafodaeth ar fater mor bwysig.

Dywedodd yr Aelod Gweithredol y teimlai fod y pwyntiau a godwyd wedi cael sylw fel rhan o'r adroddiad.

**O blaid Opsiwn 1** – Cynghorwyr M. Cook, N. Daniels, D. Davies, G. A. Davies, G. L. Davies, M. Day, D. Hancock, S. Healy, J. Hill, J. Holt, C. Meredith, M. Moore, L. Parsons, G. Paulsen, K. Pritchard, K. Rowson, B. Summers, J. Wilkins.

**Yn erbyn Opsiwn 1 –** Cynghorwyr P. Baldwin, D. Bevan, M. Cross, P. Edwards, H, McCarthy, T. Sharrem, T. Smith, S. Thomas, H. Trollope, D. Wilkshire, B. Willis, L. Winnett.

Gan nad oedd unrhyw Aelod wedi nodi bwriad i bleidleisio mewn ffordd ywahanol, cytunwyd y yddai'r bleidlais yn gael ei gwrthdroi ar gyfer Opsiwn 2.

**O blaid Opsiwn 2 –** Cynghorwyr P. Baldwin, D. Bevan, M. Cross, P. Edwards, H, McCarthy, T. Sharrem, T. Smith, S. Thomas, H. Trollope, D. Wilkshire, B. Willis, L. Winnett.

**Yn erbyn Opsiwn 2** – Councillors M. Cook, N. Daniels, D. Davies, G. A. Davies, G. L. Davies, M. Day, D. Hancock, S. Healy, J. Hill, J. Holt, C. Meredith, M. Moore, L. Parsons, G. Paulsen, K. Pritchard, K. Rowson, B. Summers, J. Wilkins.

**Felly cariwyd y bleidlais ar Opsiwn 1.**

PENDERFYNWYD, yn amodol ar yr uchod, i dderbyn yr adroddiad sy'n ymwneud â materion ariannol neu fusnes unrhyw berson

| | | |
|---|---|---|
| | neilltuol (yn cynnwys yr awdurdod) a chymeradwyo Opsiwn 1, sef:<br><br>(i) Derbyn telerau'r Cytundeb Pedaironglog fel y cânt eu gosod yn yr adroddiad a bod y Cyngor yn ymrwymo i gytundeb i ddarparu'r gwaith i Reilffordd Cwm Ebwy.<br><br>(ii) Derbyn telerau'r Cytundeb Gweithredol yn unol â'r Cytundeb Pedairochrog a bod y Cyngor yn ymrwymo i'r cytundeb i gyflenwi'r gwaith i Reilffordd Glynebwy.<br><br>(iii) Penodi Trafnidiaeth Cymru yn uniongyrchol i ddarparu gwasanaethau arbenigol i'r Cyngor.<br><br>(iv) Cytuno ar aelodaeth y Pwyllgor Cydlynu ar gyfer Blaenau Gwent. | |
| **No. 58** | **<u>GWAITH CYNNAL A CHADW PRIFFYRDD YCHWANEGOL 2021/22</u>**<br><br>Gan ystyried y farn a fynegwyd gan y Swyddog Priodol parthed y prawf budd cyhoeddus, o bwyso a mesur popeth fod y budd cyhoeddus mewn cynnal yr eithriad yn fwy na'r budd cyhoeddus mewn datgelu'r wybodaeth ac y dylai'r adroddiad gael ei eithrio.<br><br>PENDERFYNWYD eithrio'r cyhoedd tra caiff yr eitem hon o fusnes ei thrafod gan ei bod yn debygol y byddai datgeliad o wybodaeth eithriedig fel y'i diffinnir ym Mharagraff 14, Atodlen 12A Deddf Llywodraeth Leol 1972 (fel y'i diwygiwyd).<br><br>Cyflwynwyd adroddiad y Pennaeth Gwasanaeth Cymunedol i gael ei ystyried.<br><br>Siaradodd y Pennaeth Gwasanaethau Cymunedol yn fyr am yr adroddiad a dywedodd pe cymeradwyid Opsiwn 2 y byddai cost y £320,000 yn cael ei gyllido o gronfa wrth gefn gyffredinol y Cyngor.<br><br>PENDERFYNWYD yn unfrydol i dderbyn yr adroddiad sy'n cyfeirio at faterion ariannol neu fusnes unrhyw berson neilltuol (yn cynnwys yr awdurdod) a chymeradwyo Opsiwn 2, sef:<br><br>Dynodi'r gwaith angenrheidiol ar draws pob un o'r 16 ward a chynnal gwaith tendr gyda chontractwr preifat i sicrhau cost gwaith clytio priffyrdd fesul metr sgwâr. Targedu tua 400 metr sgwâr o atgyweirio priffyrdd fesul ward yn cynnwys ffyrdd preswyl ym mhob | |

| | | |
|---|---|---|
| | un o'r 16 ward. | |
| **No. 59** | **LLUNIO RHESTR FER – SWYDDOGION JNC**<br><br>Datganodd y Prif Swyddog Masnachol a Chwsmeriaid fuddiant yn eitemau rhif 59-61 a gadawodd y cyfarfod ar y pwynt hwn.<br><br>Wedyn cafodd eitemau rhifau 57-62 eu hystyried ar yr un pryd.<br><br>Gan ystyried y farn a fynegwyd gan y Swyddog Priodol parthed y prawf budd cyhoeddus, o bwyso a mesur popeth fod y budd cyhoeddus mewn cynnal yr eithriad yn fwy na'r budd cyhoeddus mewn datgelu'r wybodaeth ac y dylai'r adroddiad gael ei eithrio.<br><br>PENDERFYNWYD eithrio'r cyhoedd tra caiff yr eitem hon o fusnes ei thrafod gan ei bod yn debygol y byddai datgeliad o wybodaeth eithriedig fel y'i diffinnir ym Mharagraff 12 a 13, Atodlen 12A Deddf Llywodraeth Leol 1972 (fel y'i diwygiwyd).<br><br>Rhoddwyd ystyriaeth i adroddiad y cyfarfod a gynhaliwyd ar 29 Mawrth 2021.<br><br>PENDERFYNWYD yn unfrydol i dderbyn yr adroddiad sy'n cyfeirio at faterion staffio a nodi'r penderfyniadau a gynhwysir ynddo. | |
| **No. 60** | **PWYLLGOR APWYNTIADAU – SWYDDOGION JNC**<br><br>Gan ystyried y farn a fynegwyd gan y Swyddog Priodol parthed y prawf budd cyhoeddus, o bwyso a mesur popeth fod y budd cyhoeddus mewn cynnal yr eithriad yn fwy na'r budd cyhoeddus mewn datgelu'r wybodaeth ac y dylai'r adroddiad gael ei eithrio.<br><br>PENDERFYNWYD eithrio'r cyhoedd tra caiff yr eitem hon o fusnes ei thrafod gan ei bod yn debygol y byddai datgeliad o wybodaeth eithriedig fel y'i diffinnir ym Mharagraff 12 a 13, Atodlen 12A Deddf Llywodraeth Leol 1972 (fel y'i diwygiwyd).<br><br>Rhoddwyd ystyriaeth i adroddiad y cyfarfod a gynhaliwyd ar 13 Ebrill 2021.<br><br>PENDERFYNWYD yn unfrydol i dderbyn yr adroddiad sy'n cyfeirio at faterion staffio a chynnig y swydd i Luisa Munro-Morris ar gyflog yn unol â JNC 3 (£63,742 - £70,115). | |

| | | |
|---|---|---|
| **No. 61** | **<u>LLUNIO RHESTR HIR – SWYDDOGION JNC</u>**<br><br>Gan ystyried y farn a fynegwyd gan y Swyddog Priodol parthed y prawf budd cyhoeddus, o bwyso a mesur popeth fod y budd cyhoeddus mewn cynnal yr eithriad yn fwy na'r budd cyhoeddus mewn datgelu'r wybodaeth ac y dylai'r adroddiad gael ei eithrio.<br><br>PENDERFYNWYD eithrio'r cyhoedd tra caiff yr eitem hon o fusnes ei thrafod gan ei bod yn debygol y byddai datgeliad o wybodaeth eithriedig fel y'i diffinnir ym Mharagraff 12 a 13, Atodlen 12A Deddf Llywodraeth Leol 1972 (fel y'i diwygiwyd).<br><br>Rhoddwyd ystyriaeth i adroddiad y cyfarfod a gynhaliwyd ar 19 Mai 2021.<br><br>PENDERFYNWYD yn unfrydol i dderbyn yr adroddiad sy'n cyfeirio at faterion staffio a nodi'r penderfyniadau a gynhwysir ynddo. | |
| **No. 62** | **<u>LLUNIO RHESTR FER – SWYDDOGION JNC</u>**<br><br>Gan ystyried y farn a fynegwyd gan y Swyddog Priodol parthed y prawf budd cyhoeddus, o bwyso a mesur popeth fod y budd cyhoeddus mewn cynnal yr eithriad yn fwy na'r budd cyhoeddus mewn datgelu'r wybodaeth ac y dylai'r adroddiad gael ei eithrio.<br><br>PENDERFYNWYD eithrio'r cyhoedd tra caiff yr eitem hon o fusnes ei thrafod gan ei bod yn debygol y byddai datgeliad o wybodaeth eithriedig fel y'i diffinnir ym Mharagraff 12 a 13, Atodlen 12A Deddf Llywodraeth Leol 1972 (fel y'i diwygiwyd).<br><br>Rhoddwyd ystyriaeth i adroddiad y cyfarfod a gynhaliwyd ar 9 Mehefin 2021.<br><br>PENDERFYNWYD yn unfrydol i dderbyn yr adroddiad sy'n cyfeirio at faterion staffio a nodi'r penderfyniadau a gynhwysir ynddo. | |
| **No. 63** | **<u>PWYLLGOR APWYNTIADAU – SWYDDOGION JNC</u>**<br><br>Gan ystyried y farn a fynegwyd gan y Swyddog Priodol parthed y prawf budd cyhoeddus, o bwyso a mesur popeth fod y budd cyhoeddus mewn cynnal yr eithriad yn fwy na'r budd cyhoeddus mewn datgelu'r wybodaeth ac y dylai'r adroddiad gael ei eithrio.<br><br>PENDERFYNWYD eithrio'r cyhoedd tra caiff yr eitem hon o fusnes | |

| | | |
|---|---|---|
| | ei thrafod gan ei bod yn debygol y byddai datgeliad o wybodaeth eithriedig fel y'i diffinnir ym Mharagraff 12 a 13, Atodlen 12A Deddf Llywodraeth Leol 1972 (fel y'i diwygiwyd).<br><br>Rhoddwyd ystyriaeth i adroddiad y cyfarfod a gynhaliwyd ar 17 Mehefin 2021.<br><br>PENDERFYNWYD i dderbyn yr adroddiad sy'n cyfeirio at faterion staffio a chynnig y swydd i Bernadette Elias ar gyflog yn unol â JNC 5 (£73,137 - £80,450). | |
| **No. 64** | **<u>PWYLLGOR APÊL</u>**<br><br>Gan ystyried y farn a fynegwyd gan y Swyddog Priodol parthed y prawf budd cyhoeddus, o bwyso a mesur popeth fod y budd cyhoeddus mewn cynnal yr eithriad yn fwy na'r budd cyhoeddus mewn datgelu'r wybodaeth ac y dylai'r adroddiad gael ei eithrio.<br><br>PENDERFYNWYD eithrio'r cyhoedd tra caiff yr eitem hon o fusnes ei thrafod gan ei bod yn debygol y byddai datgeliad o wybodaeth eithriedig fel y'i diffinnir ym Mharagraff 12 a 13, Atodlen 12A Deddf Llywodraeth Leol 1972 (fel y'i diwygiwyd).<br><br>Rhoddwyd ystyriaeth i adroddiad y cyfarfod a gynhaliwyd ar 30 Ebrill 2021.<br><br>PENDERFYNWYD yn unfrydol i dderbyn yr adroddiad sy'n cyfeirio at faterion staffio a nodi'r penderfyniad a gynhwysir ynddo. | |